**Rhif: 5**

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais:** | **C17/0107/19/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **02/02/2017** |
| **Math y Cais:** | **Llawn - Cynllunio** |
| **Cymuned:** | **Bontnewydd** |
| **Ward:** | **Bontnewydd** |
| **Bwriad:** | **Cais am ganiatâd cynllunio dros dro am waith cysylltiedig ag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd, gan gynnwys;**<br>**• Compownd safle a darparu sied gynnal a chadw, gofod swyddfa, lles a chyfleusterau parcio ceir, storfa danwydd, tanc storio carthion, offer swp-brosesu concrid symudol, offer swp-brosesu asffalt symudol a darparu llwybr cludo.** |
| **Lleoliad:** | **Chwarel Seiont, Ffordd Melin Seiont, Caernarfon, Gwynedd, LL552YL** |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | AWDURDODI UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD I BENDERFYNU'R CAIS DAN BWERAU DIRPRWYEDIG |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig gwella Cefnffordd yr A487 drwy ddarparu ffordd osgoi 9.7km ar gyfer aneddiadau Caernarfon a Bontnewydd. Mae Cefnffordd yr A487 yn ffurfio rhan o'r prif rwydwaith ffyrdd strategol yng Ngogledd Cymru sy'n cysylltu â choridor yr A55 ymhellach draw ar hyd yr arfordir. Bydd cynllun y ffordd osgoi yn gwella problemau tagfeydd traffig yn ardal Caernarfon a Bontnewydd gan ddarparu cyswllt rhwng rhannau wedi'u gwella o'r Gefnffordd a mynd i'r afael â'r angen am seilwaith ffyrdd o ansawdd cyson.

1.2 Dyma un o ddau gais cynllunio cyfredol sydd wedi'u cyflwyno am gynigion i ddefnyddio'r safle ar y cyd â chynllun ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd. Chwarel frics clai a chyn ffatri gwaith brics yw safle'r cais sydd wedi'i leoli i'r de o Gaernarfon ac mae'n cynnwys gweithfeydd y chwarel, ardaloedd mawr o leiniau caled ar y naill ochr i Afon Seiont, porfa fras ar hyd wyneb uchaf y gweithfeydd i'r dwyrain a mynedfa gerbydol sy'n cysylltu Ffordd Melin Seiont â chylchfan Pont Seiont.

1.3 Mae'r ymgeisydd wedi cynnal ymarferiad cyn-ymgynghori llawn ar y cynigion datblygu yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2016 (Rheoliadau PAC). Mae adroddiad llawn a chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u darparu gyda'r cais cynllunio.

1.4 Bydd y cynllun yn cynnwys gwaith peirianneg i ledu ffordd gludo bresennol y chwarel ar yr wyneb gweithio i'r de ddwyrain. Yn gysylltiedig â'r cynllun hwn, bydd y compownd bychan a sefydlwyd yn yr iard gwaith brics yn cael ei ymestyn i ddarparu compownd diogel i'r contractwr gyda swyddfeydd, cyfleusterau lles, gofod parcio ceir, adeiladu sied cynnal a chadw peiriannau, gwaith swp-brosesu asffalt a choncrid cyfleuster prosesu deunyddiau a storfa danwydd wedi'i bwndio ar gyfer hyd cytundeb y ffordd osgoi yn ei gyfanrwydd.

1.5 Ceir manteision economaidd, logistaidd ac amgylcheddol drwy ddefnyddio'r chwarel mewn cysylltiad ag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 o Gaernarfon i Bontnewydd. Mae Chwarel Seiont wedi'i lleoli yn union gerllaw llwybr arfaethedig y ffordd osgoi a bydd yn bodloni mwyafrif gofynion mwynau'r cynllun a byddai argaeledd y safle yn haneru nifer y siwrnai HGV ac yn lliniaru nifer y milltiroedd HGV a deithir ar ffyrdd cyhoeddus yn ystod y cyfnod adeiladu dwy flynedd. O ganlyniad, gwneir arbediad sylweddol o ran y swm o danwydd a ddefnyddir, gwelir lleihad mewn allyriadau cerbydau a bydd hyn yn arwain at ddod â chynigion ar gyfer adfer y safle ymlaen.

**Asesiad Effaith Amgylcheddol:**

1.6 Cyflwynwyd y cais gydag Asesiad Effaith Amgylcheddol yn dilyn barn sgrinio gadarnhaol a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2015. Mae'r awdurdod wedi dod i gytundeb ynghylch y materion allweddol i fynd i'r afael â hwy yn y Datganiad Amgylcheddol mewn barn sgopio ffurfiol a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2015, gan gynnwys; Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol, Asesiad Cynllunio Gwastraff (NCT 21): Gwastraff, Ecoleg a Chadwraeth Natur, Asesiad Tir Wedi'i Halogi, Treftadaeth Ddiwylliannol & chofnodi archeolegol y nodweddion gwaith brics sydd ar ôl, Hydroleg, Hydroddaeareg, Ansawdd Dŵr, Draenio, Asesiad risg llifogydd yn unol â NCT 15 (Datblygu a Risg Llifogydd), Asesiad Traffig a Thrafnidiaeth, Asesiad Effaith Sŵn a Dirgryniant, Asesiad Ansawdd Aer, Goleuo, Ystyriaethau cyflogaeth/economaidd, Daeareg, Priddoedd, Asesiad Geodechnegol ac ystyriaethau RIGS (Safle Daearegol o Bwys Rhanbarthol) eraill, Budd Cymunedol

Arall (hawliau tramwy, ehangu'r amgylchedd, effeithiau cymunedol a'r buddion cymunedol posib, ystyriaethau cymdeithasol-economaidd), effeithiau cronnus gyda'r cynllun ffordd arfaethedig, Asesiad o rywogaethau planhigion ymledol anfrodorol, Asesiad yng nghyd-destun gofynion Polisïau Cynllunio Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol a chanllawiau, Cynigion am ddefnyddio'r safle wedi'r datblygiad a Chynllun Adfer.

1.7 Fel y nodwyd uchod, dyma un o ddau gais cynllunio cyfredol sydd wedi'u cyflwyno am gynigion i ddefnyddio'r safle ar y cyd â chynllun ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd. Mae'r holl elfennau sy'n llunio rhan o'r cais hwn wedi'u cynnwys yn y cynigion datblygu sydd wedi'u cyflwyno â'r chwaer-gais mwy, sef C17/0011/19/MW. Er na fyddai'r cais hwn ar ei ben ei hun yn sbarduno'r meini prawf datblygu ar gyfer Asesiad Effaith Amgylcheddol, mae'r dogfennau cefnogi perthnasol a'r wybodaeth amgylcheddol sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol wedi'i hystyried yng nghyd-destun y cynigion datblygu sydd wedi'u cynnwys yn y cais cynllunio hwn.

1.8 Bydd angen ystyried unrhyw effeithiau anuniongyrchol ar ddynodiadau amgylcheddol Ewropeaidd ar wahân fel rhan o'r HRA a gynhelir yn unol â Rheoliad 61 Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

## 2. Polisïau Perthnasol:

Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 3.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn datgan fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Unedol 2001-2016.

2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

- POLISI STRATEGOL 1 **- Cymryd Ymagwedd Ragofalus**
- POLISI STRATEGOL 2 **- Yr Amgylchedd Naturiol**
- POLISI STRATEGOL 3 **- Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol**
- POLISI STRATEGOL 5 **- Datblygiadau fydd yn creu Risg**
- POLISI STRATEGOL 6 **- Ailddatblygu ac Ailddefnyddio Tir**
- POLISI STRATEGOL 12 - **Trafnidiaeth**
- POLISI STRATEGOL 16 – **Cyflogaeth**

- POLISI A1 - **Asesiadau Amgylcheddol neu Asesiadau o Effeithiau Eraill**. Sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu effeithiau sylweddol a thebygol eraill ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.
- POLISI A3 - **Egwyddor Ragofalus**. Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad perthnasol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.

- POLISI B3 - **Datblygiadau sy’n Effeithio ar Osodiad Adeilad Rhestredig** Sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith andwyol ar osodiad Adeiladau Rhestredig oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu at warchod cymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig a’r amgylchedd lleol.
- POLISI B6 - **Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon a Waliau’r Dref**. Gwrthod cynigion fydd yn achosi niwed arwyddocaol i henebion Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon.
- POLISI B7 – **Safleoedd o Bwysigrwydd Archeolegol -** Gwrthodir cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai peidio) neu eu gosodiad. Gwrthodir datblygiad fydd yn effeithio ar olion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd yr olion archeolegol.
- POLISI B8 – **Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a Môn (AHNE) -** Diogelu, cynnal a gwella cymeriad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig y safle.
- POLISI B12 - **Diogelu Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol -** Diogelu tirweddau, parciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a allai achosi difrod sylweddol i’w cymeriad, eu hedrychiad neu eu lleoliad.
- POLISI B14 - **Gwarchod Cymeriad Tirlun Parc Cenedlaethol Eryri -** Gwarchod cymeriad y dirwedd ym Mharc Cenedlaethol Eryri drwy wrthod cynigion sy’n ymwthio’n weledol a/neu sydd wedi'u lleoli yn ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y dirwedd.
- POLISI B15 – **Gwarchod Safleoedd Cadwraeth Natur o Bwysigrwydd Rhyngwladol -** Gwrthod cynigion sy’n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu at reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig safleoedd o’r fath.
- POLISI B16 – **Gwarchod Safleoedd Cadwraeth Natur o Bwysigrwydd Cenedlaethol -** Gwrthod cynigion sy’n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd cenedlaethol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu at reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.
- POLISI B17 **- Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol -** Gwrthodir cynigion fyddai’n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu at warchod, hyrwyddo a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd hyn.
- POLISI B18 - **Gwarchod a Gwella Safleoedd Daearegol/Geomorffolegol Pwysig Rhanbarthol (RIGS) -** Gwrthod cynigion sy’n debygol achosi difrod sylweddol i safleoedd daearegol/geomorffolegol pwysig rhanbarthol (RIGS) oni bai bod yr angen am y bwriad yn gorbwyso gwerth y safle.
- POLISI B19 – **Coed, Coedlannau a Gwrychoedd sy’n cael eu Gwarchod -** Caniatáu cynigion fydd yn golygu colli neu ddifrod i goeden, coedlan neu wrych sy’n cael ei warchod dim ond pan fydd buddion economaidd a/neu gymdeithasol y datblygiad yn gwrthbwyso unrhyw niwed.
- POLISI B20 – **Rhywogaethau a’u Cynefinoedd sy’n Bwysig yn Rhyngwladol, yn Genedlaethol ac yn Lleol -** Gwrthod cynigion sy’n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a’u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu at ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.
- POLISI B21 – **Coridorau Bywyd Gwyllt, Cysylltiadau Cynefinoedd a Cherrig Sarn -** Diogelu cyfanrwydd nodweddion tirwedd sy’n bwysig ar gyfer fflora a ffawna gwyllt oni bai fod rhesymau dros y datblygiad yn gorbwyso’r angen i gynnal y nodweddion ac y gellir darparu mesurau lliniaru.

- POLISI B23 – **Mwynderau -** Diogelu mwynderau'r ardal leol drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu at warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.
- POLISI B30 - **Tir neu Adeiladau wedi'u halogi**. Sicrhau bod cynigion i ddatblygu tir neu adeilad wedi ei lygru yn cael eu gwrthod oni bai gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i reoli'r llygredd neu gyfyngu arno.
- POLISI B32 - **Dŵr Wyneb -** Gwrthodir cynigion na fyddant yn cynnwys mesurau lleihau llifogydd neu fesurau lliniaru fydd yn arwain at ostwng cyfaint a graddfa'r dŵr wyneb fyddai'n cyrraedd ac yn llifo i afonydd a chyrsiau dŵr eraill.
- POLISI B33 – **Datblygiadau sy'n Creu Llygredd neu Boendod -** Gwarchod iechyd y cyhoedd, diogelwch mwynderau, neu ansawdd yr amgylchedd adeiledig neu naturiol o ganlyniad i lefelau uwch o lygredd.
- POLISI C3 - **Ailddefnyddio safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen**. Cymeradwyir cynigion sy'n rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio tir neu adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen a leolir o fewn neu o gwmpas ffiniau datblygu cyn belled â bod y safle neu'r adeilad a'r defnydd yn addas.
- POLISI C14 - **Adfer ac Ôl-ofal -** Gwrthodir ceisiadau am weithfeydd mwynau oni bai bod cynllun adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd yn cael eu cynnwys, yn ogystal â manylion arian arfaethedig.
- POLISI C15 - **Symud Deunydd o Domen Gwaith Mwynau -** Cymeradwyir cynigion i dynnu deunydd o domen gwaith mwynau yn amodol ar feini prawf datblygu penodol gan gynnwys yr holl feini prawf sydd wedi'u nodi ym mholisïau C9 ac C10.
- POLISI CH26 - **Gwarchod Llwybrau Ffyrdd Arfaethedig -** Gwarchodir tir sydd ei angen ar gyfer gwelliannau ffyrdd penodol rhag datblygiadau eraill (gweler y map cynigion).
- POLISI CH33 – **Diogelwch ar Ffyrdd a Strydoedd -** Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio â meini prawf penodol sy'n ymwneud â diogelwch y fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol i ymdrin â llif traffig o'r datblygiad a mesurau tawelu traffig.
- **CCA Gwynedd 2009 - Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd.**
- **Canllaw Dylunio Gwynedd 2004**

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD 2011 - 2026**
**Fersiwn Cyfansawdd yn cynnwys Newidiadau Materion yn Codi**
Polisi Strategol PS 5: Datblygiad Cynaliadwy
Polisi Strategol PS 6: Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd
Polisi Strategol PS 10: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus
POLISI STRATEGOL PS 16: Gwarchod ac/neu gwella'r amgylchedd naturiol
Polisi Strategol PS 17: Cadw neu wella asedau treftadaeth
Polisi Strategol PS 19: Mwynau

POLICY AMG 2: GWARCHOD A GWELLA NODWEDDION A RHINWEDDAU SYDD YN UNIGRYW I GYMERIAD Y DIRWEDD LEOL
POLISI AMG 4: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
POLISI AMG 5: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol
POLISI AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi
POLISI AT 4 Diogelu Safleoedd Archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi

POLISI CYFF 1: Meini Prawf Datblygu
POLISI CYFF 3 Dylunio a Thirweddu
POLISI CYFF 5: Cadwraeth Dŵr
POLISI TRA 1: Datblygiadau Rhwydwaith Cludiant

POLISI TRA 4: Rheoli Ardrawiadau Cludiant
POLISI MWYN 6: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau

**2.4 Polisïau Cenedlaethol**

- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir yn Rhifyn 9 Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tachwedd 2016,
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Llywodraeth Cymru,
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 - Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol, Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth,
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio, NCT 11: Sŵn, NCT 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd, NCT 18: Trafnidiaeth, NCT 21: Gwastraff, NCT 23: Datblygiad Economaidd,
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1, Llywodraeth Cynulliad Cymru: AGREGAU (Mawrth 2004),
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol, Awst 2014.

3 **Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Rhoddodd Caniatâd Cynllunio Rhif 390 ganiatâd gydag amodau, ar 22 Tachwedd 1951, i barhau â'r gwaith yng Ngwaith Brics Peblig a Seiont Caernarfon - Mae deunydd wedi cael ei echdynnu yn y safle am oddeutu 100 mlynedd ac mae'r safle wedi cael ei weithio'n rheolaidd ers y cyfnod hwnnw.

3.2 C00A/0441/14/MW dyddiedig 10 Mai 2007 - Deddf Amgylchedd 1995, Penderfynu ar amodau a chynllun gweithio dan adolygiad cychwynnol (ROMP) ar gais rhif 390 dyddiedig 22 Tachwedd 1951.

3.3 C00A/0442/14/MW wedi'i ganiatáu gydag amodau ar 9 Mai 2007 - Parhau i ddefnyddio tir ar gyfer ailddefnyddio/gwasgaru gwastraff mwynau ar hen lein y rheilffordd.

3.4 C01A/0750/14/TC - Tystysgrif Defnydd neu Ddatblygiad Cyfreithiol dyddiedig 6 Chwefror 2002 ar gyfer defnydd cyfredol y safle hwn fel ardal pentyrru brics.

3.5 C15/0977/19/LL wedi'i ganiatáu gydag amodau ar 28 Hydref 2015 ar gyfer newid defnydd y tir ar gyfer gosod tri adeilad dros dro, ardaloedd parcio, dau gynhwysydd storio ynghyd â ffensys diogelwch mewn perthynas ag adeiladu ffordd osgoi Caernarfon.

3.6 Daeth y gwaith i ben yn y chwarel yn 2008 gydag adeilad y gwaith brics a swyddfa'r safle'n cael eu dymchwel yn 2010 a 2013 yn ôl eu trefn.

4. **Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned Waunfawr: | Gwrthwynebu'r cais am y rhesymau a ganlyn:<br>• Codi pryderon mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar ddrafft cyntaf y cynigion oedd yn cynnwys llwybr cludo parhaol tua'r gogledd i'r A4085, a oedd i'w ddileu yn dilyn trafodaethau ar yr ymarferiad ymgynghori PAC. Darparu mynediad newydd parhaol i'r chwarel o'r A4085,<br>• Amserlen o 10 mlynedd ar gyfer gwaith atodol i anghenion gwaith adeiladu'r ffordd osgoi,<br>• Safle'n destun prosesau adfywiad naturiol,<br>• Cynigion amgen i'w hystyried ar gyfer y safle. |

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Tref Caernarfon: | Dim ymateb |
| Cyngor Cymuned Bontnewydd: | Dim gwrthwynebiad |
| Cefn Gwlad a Mynediad Gwynedd (HT): | Dim ymateb |
| Swyddog Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd: | Dim gwrthwynebiad<br>Argymell amod neu nodyn safonol fod yr Ymgeisydd / Datblygwr yn ymrwymo i Gytundeb Traffig Arbennig dan Adran 59 Deddf Priffyrdd 1980 er mwyn diogelu cyflwr y rhwydwaith priffyrdd fydd yn cael ei effeithio yn ystod y cam dymchwel/adeiladu. |
| Uned Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru: | Fel yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am Gefnffordd yr A487, mae Llywodraeth Cymru'n nodi na fydd yn cyhoeddi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn. |
| Dŵr Cymru: | • Mae'r cynnwys yn ymateb Dŵr Cymru i'r ymarferiad ymgynghori cyn gwneud cais wedi'i gydnabod yn y DA o ran eu bod yn gwrthwynebu gwaredu dŵr wyneb yn y garthffos gyhoeddus.<br>• Fel yr ymgymerwr carthffosiaeth statudol, mae'n ddyletswydd arnom i gynnal asesiadau o'r gollyngiadau aflan a ragwelir o'r datblygiad arfaethedig, ynghyd â mesurau lliniaru er mwyn medru cysylltu i'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, byddai'r datblygiad arfaethedig yn gorlwytho'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff. Nid oes unrhyw welliannau wedi'u cynllunio fel rhan o Raglen Fuddsoddi Cyfalaf Dŵr Cymru.<br>• Gan fod y cynnig yn bwriadu defnyddio 'tanc storio symudol uwchben y ddaear', nid yw Dŵr Cymru wedi cyflwyno sylwadau pellach; fodd bynnag, pe byddai'r amgylchiadau'n newid a bod cysylltu i'r system gyhoeddus/gwaith trin carthffosiaeth cyhoeddus yn cael ei ffafrio, rhaid ail-ymgynghori â Dŵr Cymru ynghylch y cais. |
| Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd: | • Nid yw'r asesiad Treftadaeth Ddiwylliannol yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r archeolegydd rheoli datblygiad roi cyngor ar y cynigion. Ni chwblhawyd yr asesiad yn unol â'r gofynion proffesiynol na chynllunio ar gyfer gwaith o'r fath.<br>• Dylid cwblhau'r asesiad archeolegol yn unol â manyleb fydd yn cael ei chytuno ymlaen llaw â'r Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn hysbysu'r penderfyniad cynllunio. |
| Scottish Power: | Dim ymateb |

| | |
|---|---|
| Arolygiaeth Chwareli: | Dim ymateb |
| Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru: | Dim ymateb |
| CADW: | • Cytuno â'r asesiad treftadaeth ddiwylliannol na fyddai effaith y cynigion ar Barc Cofrestredig Graddfa II Y Morfa yn sylweddol.<br>• Gwaith arfaethedig o fewn 1.3km o Gastell Caernarfon a Waliau'r Dref ond ni fydd yn weledol nac yn cael effaith ar Werth Cyffredinol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd. |
| Awdurdod Llifogydd Lleol: | Dim gwrthwynebiad ond yn cyflwyno'r cyngor a'r amodau a ganlyn;<br><br>Mae sawl cwrs dŵr yn rhedeg drwy'r safle neu gyferbyn ag ef. Argymell yr amodau a ganlyn ar unrhyw ganiatâd a roddir er budd mwynderau'r ardal a'r eiddo cyfagos;<br>• Bydd y datblygwr yn diogelu'r cwrs dŵr ac yn cyflwyno manylion darpariaeth o'r fath am gymeradwyaeth gan Gyngor Gwynedd yn unol ag Adran 23(1) Deddf Draenio Tir 1991,<br>• Bydd y gost am ddiogelu'r cwrs dŵr yn cael ei thalu gan y datblygwr,<br>• Os yw'r ymgeisydd yn bwriadu gollwng dŵr wyneb i'r cyrsiau dŵr sy'n llifo drwy'r safle neu'n gyfagos iddo, bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno manylion y cynigion i Gyfoeth Naturiol Cymru am gymeradwyaeth.<br><br>Bydd yr amodau uchod hefyd yn berthnasol os yw'r datblygwr yn bwriadu cylfatu'r cwrs dŵr yn unol ag Adran 263 Deddf Iechyd Cyhoeddus ac Adran 23(1) Deddf Draenio Tir 1991. |
| Uned Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd: | • Mae'r DA yn cynnwys sawl adroddiad gan gynnwys Arolwg Cynefinoedd Cam 1, arolygon moch daear, dyfrgwn ac adareg. Ymchwiliad i rywogaethau wedi'u gwarchod dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, adar sy'n nythu, ystlumod, moch daear, dyfrgwn ac ymlusgiaid wedi'u cymryd o arolygon yn 2015 ar gyfer cynllun arfaethedig ffordd osgoi Caernarfon, sy'n cynnwys rhan o'r safle.<br>• Nid yw'r cynnig yn cynnwys cynllun adfer ar gyfer y safle.<br>• Y safle'n anweithredol ers 2008 ac yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r chwarel wedi datblygu i safle o werth bioamrywiaeth uchel, gan gynnwys sefydlu coed wedi'u plannu ac adfywiad naturiol. Mae gwrychoedd o *buddleia* a glaswellt a pherlysiau yn tyfu yn y craciau yn y concrid yn yr ardal llain galed concrid. Bydd y cynnig yn arwain at golli nifer sylweddol o goed o ganlyniad i ailraddio wyneb y |

chwarel i wneud lle i'r llwybr cludo.

- Er na chynhaliwyd yr arolwg cynefinoedd yn ystod y cyfnod mwyaf delfrydol yn y flwyddyn, gellir sefydlu bod y chwarel yn cynnwys amrediad o gynefinoedd a bydd nifer ohonynt yn cael eu heffeithio gan y cynigion datblygu. Mae cynefinoedd yn cynnwys yr hyn a ganlyn, gan gynnwys y rhai pwysicaf yng Nghymru dan Adran 7 Deddf Amgylchedd 2016; glaswelltir niwtral, tryddiferiadau gwlyb, glaswelltir wedi'i wella'n amaethyddol, sgrwb, coetir dail llydan, gwrychoedd, llyn, dŵr agored, ffosydd, afon, daear foel (concrid a chlai), malurion (briciau a choncrid) a chynefin mosaig agored o dir a ddatblygwyd o'r blaen,
- Is-haen o glai, llain galed concrid a sawl ffos a phwll sy'n cartrefu toreth o lystyfiant; cyn ardal storio brics yn ystum yr afon yn cynnwys cynefin Adran 7, glaswelltir dôl iseldir sydd angen ei ymchwilio ymhellach,
- Er nad yw Chwarel Seiont wedi'i dynodi fel Safle Bywyd Gwyllt, mae'r Gwasanaeth Bioamrywiaeth wedi archwilio'r safle ac wedi nodi y byddai'n gymwys gan ei fod yn debygol o gefnogi sawl rhywogaeth o bwysigrwydd cenedlaethol a lleol gan gynnwys adar sy'n nythu, gwas y neidr a mursen, ymlusgiaid, ystlumod, dyfrgwn ac infertebratau, yn benodol glöyn byw y *Dingy Skipper* sydd wedi'i restru dan adran 7 fel rhywogaeth â blaenoriaeth bioamrywiaeth yn y DU,
- Cofnodwyd clwydfan gaeafgysgu'r ystlum pedol leiaf mewn adeilad adfeiliedig yn y cyn ardal storio brics ond hefyd ystlumod brown hir-glust, y *pipistrelle* cyffredin, y soprano *pipistrelle myotis* a *noctule* yng nghyffiniau'r safle. Mae'r chwarel yn cynnwys cynefinoedd porthiant addas i ystlumod pedol leiaf megis sgrwb, glaswelltir a choetir. Gallai'r bwriad effeithio ar gynefin porthiant a thorri ar draws llwybrau hedfan,
- Bydd y bwriad yn arwain at golli cynefinoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth cenedlaethol, gan gynnwys 9.4ha o gynefin mosaig agored, er y gallai cynefin o'r fath ailsefydlu ymhen amser unwaith y bydd y datblygiad yn dod i ben. Yn ogystal, bydd y datblygiad yn cynnwys colli gwrych, glaswelltir niwtral a llyn.

<u>Crynodeb o'r effeithiau</u>
Bydd y cynnig yn arwain at yr effeithiau a ganlyn:

- Colli cynefin y *dingy skipper* ac efallai'r boblogaeth *dingy skipper* yn y safle hwn.
- Colli cynefin mosaig agored o dir a ddatblygwyd o'r blaen (ar is-haen o glai) o oddeutu 2000 metr sgwâr a 5000 metr sgwâr ar gyfer y trac cludo; cyfanswm o 7000 metr sgwâr neu 0.7ha.

- Colli sgrwb
- Colli coed aeddfed

Bydd y cynnig hwn yn achosi colli peth cynefin, ond nid ardal estynedig (oddeutu un rhan o bump o'r chwarel gyfan) a bydd y cynefinoedd sydd ar ôl yn parhau i ddarparu cynefin porthiant i ystlumod ac felly bydd yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ystlumod. Er hynny, mae angen ystyried goleuo er mwyn sicrhau fod yr effeithiau i'r ystlumod yn cael eu lleihau.

<u>Argymhellion</u>
Mae angen camau lliniaru er mwyn lleihau'r effeithiau ar nodweddion ecolegol; argymhellaf y dylai'r ymgeisydd ddarparu cynllun lliniaru sy'n cynnwys yr hyn a ganlyn:

- Cynllun adfer
- Mesurau lliniaru ymlusgiaid gan gynnwys mesurau i osgoi niwed i'r cynllun ymlusgiaid.
- Ni ddylid clirio coed a llwyni yn ystod y cyfnod pan fo adar yn nythu.
- Dylid darparu arolwg coed cyn y gwneir penderfyniad ar y cais. Dylai'r cynllun arfaethedig osgoi niweidio coed aeddfed, yn enwedig gan fod y coed yn ffurfio coridor hedfan pwysig i'r ystlum pedol leiaf.
- Dylai'r gwaith adfer gynnwys cynigion ar gyfer uchafu bioamrywiaeth ar y safle, gan gynnwys,
    - Cynllun ar gyfer rheoli a gwaredu rhywogaethau ymledol
    - Dim ond ail-hadu gyda gwair o ddolydd gwair cyfoethog o rywogaeth leol,
    - Ymestyn y glwydfan ystlumod gyfredol
    - Creu mosaig o byllau bychan ar draws gwaelod gwagle'r chwarel
    - Creu ardal fwy o laswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau a nodweddion rhywogaethau, e.e. clwydfannau ystlumod, gwâl i ddyfrgwn, safleoedd gaeafgysgu i ymlusgiaid a digon o ardaloedd ar gyfer adar sy'n nythu.
    - Dim pori
    - Cynllun lliniaru ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig
    - Cynllun monitro ac ôl-ofal
    - Dim gwaredu uwchbridd
    - Adfer y safle yn barc natur

**<u>Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau</u>**
Dan Reoliadau Cynefinoedd 2010, dylid asesu cynlluniau a phrosiectau nad ydynt ar gyfer rheoli Safle Ewropeaidd am eu heffeithiau arwyddocaol i unrhyw Safle Ewropeaidd.
Mae sawl Safle Ewropeaidd a allai gael eu heffeithio o bosib gan y bwriad hwn yn y Gwaith Brics:

- ACA Afon Menai a Bae Conwy
- ACA Glynllifon
- ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn

**Crynodeb**
Mae'r bwriad i ddefnyddio'r safle fel safle dros dro fel compownd safle yn gysylltiedig â ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd gan gynnwys compownd, swyddfeydd, storfa danwydd, tanc storio carthion, peiriannau swp-brosesu concrid symudol, peiriannau swp-brosesu asffalt symudol a darparu llwybr cludo, yng Ngwaith Brics Caernarfon, yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar unrhyw safleoedd sydd wedi'u dynodi dan Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

Gwarchod y Cyhoedd:

- Mae'r cynnig yn wahanol i'r gweithgarwch a reoleiddiwyd o'r blaen, sef gwaith cynhyrchu brics gan fod yr holl weithgarwch/gwaith ar y safle am gael ei wneud yn yr awyr agored, yn hytrach nag o fewn muriau adeilad. Mae'r materion amgylcheddol allweddol i dderbyn sylw yn cynnwys Draenio, Ansawdd yr Aer, Allyriadau Sŵn a'r Posibilrwydd o Dir wedi'i Halogi.
- Yn sgil nifer y staff sy'n debygol o fod angen cyfleusterau lles, byddai Gwarchod y Cyhoedd yn ffafrio darpariaethau draenio dŵr aflan sydd wedi'u cysylltu i'r prif garthffos.
- Cynnydd posib mewn echdynnu deunydd o'r chwarel ac mae'n bwysig nad ydyw unrhyw lygryddion aer sy'n codi o'r gweithiau yn cael effaith andwyol ar iechyd y cyhoedd. Y prif bryder fyddai achosion o allyriadau yn ffoi i'r aer yn ystod y cyfnod adeiladu ac sy'n dod yn sgil symudiadau traffig HGV. Argymhellir paratoi a gweithredu cynllun rheoli llwch a gosod amodau priodol i reoli allyriadau deunydd gronynnol $PM_{10}$ a $PM_{2.5}$, yn ogystal â lefelau Nitrogen Deuocsid $NO_2$.
- Amodau priodol i reoli allyriadau llwch ond hefyd y gofyn am gynnal arolwg llwch am gyfnod o 6 mis fan leiaf mewn lleoliadau wedi'u cytuno. Dylid gwneud gwaith mathru, sgrinio, cludo a gweithrediadau eraill sy'n debygol o arwain at lwch sy'n cael ei gludo yn yr aer mewn adeilad priodol. Mae gwaith mathru a sgrinio angen caniatâd dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010,
- Dylid cyflwyno manylion y cyfleusterau golchi cerbydau i'w gosod, gan gynnwys y lleoliad, dyluniad, manyleb a'r rheoliadau i'w defnyddio i sicrhau defnydd cywir yn ysgrifenedig er mwyn cael cymeradwyaeth iddynt. Yna, bydd y cyfleusterau cymeradwy'n cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr gweithio llawn ac yn cael eu defnyddio gan bob cerbyd HGV fydd yn gadael y safle er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fwd, llwch na deunydd niweidiol arall yn cael ei drosglwyddo i'r briffordd gyhoeddus

wrth iddynt adael y safle. Bydd pob cerbyd sy'n cludo mwynau o'r safle, sy'n llai na 100mm mewn unrhyw ddimensiwn, yn cael eu gorchuddio'n ddiogel (*sheeted*).

- Mae'r ymgeisydd wedi dyfynnu'r lefelau sŵn blaenorol a osodwyd ar gyfer y penderfyniad ROMP yn 2007 mewn eiddo unigol. Nid oes tystiolaeth atodol yn awgrymu fod y lefelau cefndirol cyfredol yr un fath â'r asesiad blaenorol a gynhaliwyd. Dylid diwygio'r Adroddiad Sŵn i gynnwys arolwg dangosol o'r sŵn cefndirol i gefnogi a chyfiawnhau'r defnydd o amodau sŵn. Os nad oes adroddiad sŵn ychwanegol yn bodoli, argymhellir gosod yr amodau a ganlyn ar unrhyw ganiatâd a roddir:-
- Yn ystod oriau gwaith arferol (0700-1900), ni ddylai'r lefel graddfa sŵn fod yn fwy na 55dB(A) LAeq, 1 awr (*free field*). Gyda'r nos (1900-2200), ni ddylai'r cyfyngiadau fod fwy na 10dB(A) yn fwy na'r lefel cefndirol ac ni ddylai'r cyfyngiadau yn y nos fod yn fwy na 42dB(A) LAeq, 1 awr *free field* mewn anheddau sy'n sensitif i sŵn. (MTAN1). Gweithrediadau dros dro i fod ddim mwy na 70 dB LAeq, 1 awr (*free field*) am hyd at 8 wythnos y flwyddyn.
- Noder: Defnyddir Safon Brydeinig BS.4142:2014 *'Methods for rating and assessing industrial and commercial sound'*, i asesu ac arddangos cydymffurfiaeth â'r cyfyngiad sŵn ffiniol
- Rhaid i'r awdurdod lleol gymeradwyo peiriannau penodol a dulliau rheoli neu liniaru sŵn cysylltiedig cyn y gosodir ac y gweithredir y peiriannau a'r cyfarpar gan gynnwys lefelau pŵer sŵn penodol cyn y'u defnyddir ar y safle.
- Mae potensial i sŵn gweithredol o draffig y ffordd effeithio ar eiddo sydd wedi'u lleoli rhwng y chwarel a Phont Seiont. Dylid cyfyngu'r oriau gweithredu er mwyn osgoi symudiadau gormodol o ran cerbydau HGV yn teithio i'r chwarel ac oddi yno, drwy ardaloedd preswyl yn ystod y nos. I leihau unrhyw effaith, gellir gosod amod ar y safle i sicrhau na wneir danfoniadau ac na symudir deunyddiau wedi'u prosesu, ac eithrio yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a ganlyn:
- rhwng 0700 a 1800 ddydd Llun i ddydd Gwener;
- rhwng 0700 a 1300 ddydd Sadwrn;
- a dim danfoniadau ar ddyddiau Sul nac ar Wyliau Cyhoeddus.
- Cofnodion ysgrifenedig o holl symudiadau cludiant i fod ar gael ar gais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau,

  DA yn cynnwys asesiad o dir sydd o bosib wedi'i Halogi *Adroddiad Cyflwr Safle ac Ymchwiliad ac Asesiad Risg Halogiad Daear*'. Felly, efallai bod pocedi o halogiad heb ei ganfod ledled y safle. Yn

ystod y datblygiad, os canfyddir unrhyw halogiad nad oes cyfeiriad ato yn yr adroddiad, rhaid i'r datblygwr roi'r gorau i'r gwaith ar unwaith a hysbysu'r adran hon a'r Awdurdod Cynllunio lleol. Yn y sefyllfa hon, dylai Ymgynghorydd Amgylcheddol cymwys gynnal ymchwiliad pellach sy'n manylu ar sut y gellir ymdrin â'r halogiad hwn na ragwelwyd.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Mae CNC yn gofyn am osod amodau cynllunio penodol i fynd i'r afael â'u pryderon,
- Manylion llawn y tanc storio dŵr aflan i'w gyflwyno cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle i ddangos y bydd y system arfaethedig yn diogelu'r amgylchedd cyfagos ac y bydd y system yn cael ei rheoli'n briodol. Gwaredu gwastraff aflan oddi ar y safle yn unol ag Adran 34 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990,
- Unrhyw seilwaith dros dro sy'n gysylltiedig â draenio dŵr aflan ar y safle i'w ddadgomisiynu'n llawn a'i dynnu o'r safle pan ddaw'r caniatâd i ben,
- Cynllun rheoli Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol i fod yn destun amod cynllunio,
- Gwybodaeth annigonol o'r arolwg ynghylch sut mae ystlumod yn defnyddio'r safle ar gyfer porthiant a chymudo o'u clwydfannau. Pryderon ynghylch effeithiau posib y datblygiad ar borthiant a llwybrau cymudo ystlumod ac y dylid cyflwyno cynllun goleuo am gymeradwyaeth gan yr awdurdod cynllunio mwynau. Yn ogystal, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig cyn clirio unrhyw lystyfiant aeddfed/nodweddion llinellol a allai fod yn cael eu defnyddio gan ystlumod,
- Dyfroedd wedi'u rheoli dan y safle ddim yn safleoedd amgylcheddol sensitif o'r radd uchaf a chan dybio nad oes halogiad yn bresennol yn y lleoliad hwn, dylid dilyn gofynion PCC a'r Egwyddorion Arweiniol ar Halogiad Tir. Os canfyddir halogiad, dylai'r ACM ail-ymgynghori â CNC ac argymell y dylai'r datblygwr ddilyn ei fframwaith rheoli risg, gweithdrefnau model a'r Egwyddorion Arweiniol ar Halogiad Tir ac Egwyddorion ac Ymarferion ar gyfer Amddiffyn Dŵr Daear (GP3),
- Amod cynllunio i nodi os canfyddir halogiad nad oedd wedi'i ganfod yn flaenorol yn ystod y datblygiad, ni wneir unrhyw waith datblygu pellach (ac eithrio pan fo hyn wedi'i gytuno yn ysgrifenedig fel arall), hyd nes fo strategaeth adfer yn cael ei chyflwyno i'r ACM am gymeradwyaeth,
- Argymhellir gosod cyfarpar rhyng-gipio olew i atal unrhyw lygredd i'r amgylchedd dŵr yn unol â'r canllawiau atal llygredd. Defnyddio a dylunio gwahanwyr olew mewn systemau draenio dŵr wyneb. Cysylltu â CNC i bennu p'un a yw'r cynnig yn gofyn am ganiatâd i ollwng i'r ddaear neu'r cwrs dŵr,
- Sicrhau nad yw corff dŵr daear Llyn ac Eryri'n cael ei

ddirywio ymhellach, dylid monitro a chynnal a chadw'r holl fesurau atal llygredd. Argymell pennu'r lefel dŵr daear i sicrhau fod modd rheoli'r technegau rheoli llygredd,

- Digon o ddarpariaeth i ddal dŵr ffo o fewn yr ardaloedd storio deunyddiau a gweithio gan gynnwys atal deunydd draenio sy'n llawn gwaddodion sy'n llifo o ffyrdd cludo rhag mynd i fewn i unrhyw gwrs dŵr (GPP5 ar gyfer gwaith a gwaith cynnal a chadw mewn neu gerllaw cwrs dŵr)
- Gweithdrefnau gwaredu priodol ar gyfer unrhyw asbestos a ganfyddir ar y safle,
- Y safle wedi'i leoli'n rhannol mewn parth C2 yn unol â Mapiau Cyngor Datblygu NCT 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd. Datgan CNC fod yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd a gyflwynwyd i gefnogi'r cais yn darparu amcangyfrif cywir o'r risg llifogydd posib sy'n dangos fod y rhan o'r safle y gellir ei ddatblygu (adeiladau'r safle a'r ardaloedd parcio ceir) am barhau heb lifogydd yn ystod digwyddiadau llifogydd amrywiol gan gynnwys digwyddiad llifogydd eithafol (0.1% AEP neu ddigwyddiad 1 mewn 1000). Capasiti storio llifogydd wedi'i gynyddu yn yr hen ardal storio brics ble y bydd deunydd yn cael ei dynnu. Ni fydd y datblygiad yn cynyddu llifogydd rywle arall a bydd ffordd gludo'r safle yn darparu dewis amgen, ond dros dro, o ddianc ar gyfer Ffordd Melin Seiont. Bydd unrhyw waith o fewn 8m o'r afon angen caniatâd gweithgarwch risg llifogydd pwrpasol.
- Gwastraff wedi'i reoli a dynnir neu a ddeuir ar y safle i'w gymryd i gyfleuster wedi'u awdurdodi'n briodol, gan gynnwys priddoedd wedi'u halogi.
- Cytuno â chasgliad asesiad yr ACLl dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 o ran na fydd unrhyw risg arwyddocaol o effeithiau ar safleoedd wedi'u gwarchod (AGA/ACA/SoDdGA) yn sgil y cynigion datblygu,
- Angen caniatâd gollwng diwygiedig ar gyfer y safle gan gynnwys data monitro dŵr,
- Mae CNC yn ystyried ei bod yn annhebygol y bydd y cynigion yn arwain at ddirywiad yn amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar yr amod y glynir at y mesurau a nodir yn yr holl bynciau y cyfeiriwyd atynt yn eu hymgynghoriad.

| | |
|---|---|
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Ymddangosodd hysbysiadau yn y wasg leol a chafodd hysbysiadau eu harddangos yng nghyffiniau ardal y cais o ran dau gyfnod ymgynghori ar wahân gan ddechrau ar 8 a 22 Chwefror 2017 yn ôl eu trefn. Roedd yr ail gyfnod ymgynghori yn rhoi ystyriaeth i wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn unol â Rheoliad 22 Rheoliadau EIA 2016. Derbyniwyd naw llythyr yn gwrthwynebu yn tynnu sylw at y pryderon a ganlyn;<br><u>Rhesymau am Wrthwynebu:</u> |

- Ardal ddistaw a llonydd / mwynderau preswyl ac agosrwydd eiddo i'r safle,
- Effeithiau ar fioamrywiaeth lleol, ystlumod, dyfrgwn, adar yn nythu, tylluanod;
- Effeithiau traffig yn gysylltiedig â'r defnydd o gompownd yn atodol i'r gwaith o adeiladu'r ffordd osgoi,
- Effeithiau sŵn a dirgryniant yn gysylltiedig â'r gwaith,
- Pryderon am ansawdd aer/effeithiau ansawdd aer ac iechyd,
- Llwch,
- Lled a chapasiti strwythurol Ffordd Melin Seiont,
- Oriau gweithredu,
- Gweledig y fynedfa gwaith,
- Effeithiau cronnus ar y dirwedd, amgylcheddol a mwynderol gyda chynigion y ffordd osgoi,
- Yn groes i'r polisi cynllunio a fabwysiadwyd i warchod yr amgylchedd,
- Sgrinio annigonol ar gyfer eiddo i dde-ddwyrain y chwarel,
- Hirhoedledd cynigion datblygu a'r defnydd o'r safle am sawl blwyddyn y tu hwnt i oes y gwaith o adeiladu'r ffordd osgoi; seilwaith a'r adeiladau dros dro i aros ar y safle am o leiaf 7 mlynedd; ansicrwydd yn sgil y cynigion ôl-ddefnydd hirdymor ar gyfer y safle,
- Effeithiau ar fwynderau a'r amgylchedd yn gorbwyso'r buddion o weithio'r chwarel,
- Bydd y cynigion datblygu a'r estyniad arfaethedig i'r safle yn effeithio ar fioamrywiaeth leol; mesurau lliniaru yng nghynigion y cais yn annigonol i hyrwyddo bioamrywiaeth i fodloni gofynion amcanion Llywodraeth Cymru,
- Yn groes i bolisi cynllunio a fabwysiadwyd mewn perthynas ag asedau treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys yr effaith bosib ar adeiladau rhestredig wedi'u lleoli yn uniongyrchol gyferbyn â gwaith y ffordd osgoi a phwyntiau mynediad i'r chwarel, yn enwedig gosodiad Bryn Eglwys 235m i ffwrdd a'r effaith ar olygfeydd o'r eiddo hwn,
- Effaith bosib ar asedau treftadaeth ddiwylliannol yr ardal leol ond hefyd ar Eglwys Llanbeblig (Rhestredig Gradd I) a Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon (Rhestredig Gradd I),
- Ni fydd cynigion datblygu a'r estyniad arfaethedig yn gwella'r amgylchedd naturiol nac yn cyfrannu'n gadarnhaol at dirwedd neu asedau treftadaeth adeiledig yr ardal,
- Effeithiau symudiadau cludo'n gysylltiedig â mewnforio ac allforio hyd at 400,000m$^3$ o ddeunyddiau yn ôl eu trefn,
- Effeithiau cronnus ar ansefydlogrwydd y tir yn sgil

cynigion y ffordd osgoi,
- Cynigion adfer yn unol â'r penderfyniad ROMP heb eu gweithredu,
- Effeithiau posib ar lifogydd,
- Effeithiau ar hawliau tramwy,
- Dim cynigion sgrinio ar gyfer y llwybr cludo i'r gogledd.

Yn ychwanegol i’r uchod, nid ystyriwyd fod y sylwadau a ganlyn yn ystyriaethau cynllunio dilys:
- Gwrthwynebiadau i weithrediad cynigion y ffordd osgoi a'r effaith ar werth eiddo a chyfleoedd am dai i'w gosod er dibenion gwyliau,
- Iawndal yn gysylltiedig â'r gwaith ar y ffordd osgoi,
- Effeithiau traffig mewn perthynas i sŵn ac aflonyddwch unwaith y bydd y ffordd osgoi yn weithredol,
- Effeithiau ar y cwrs dŵr sy'n rhedeg ar hyd ffin de-ddwyreiniol y chwarel.
- Golygfeydd o’r safle o Gastell Caernarfon,
- Cynigion datblygu, 'goredrych',
- Mynediad parhaol i'r A4085,
- Polisi Cynllunio CDU wedi'i fabwysiadu ar Safleoedd Mwynau Segur,
- Hawliau Dynol,
  Ail-leoli'r ffordd gludo o fewn y chwarel gan gynnwys y ddau bwynt mynediad.

**Asesu’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

5. **Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae gofyn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu sydd wedi'i fabwysiadu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2001-2016) yw'r ‘Cynllun Datblygu’ cyfredol a bydd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn (CDLl ar y Cyd) yn disodli'r CDU fel y 'cynllun datblygu' unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu. Y gobaith y bydd y CDLl ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu yn ystod mis Gorffennaf 2017.

5.2 Wrth ymdrin ag unrhyw gais cynllunio, yr ystyriaeth gyntaf bob amser ddylai fod yn brawf statudol, h.y. mae angen penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Erbyn hyn, mae'r CDLl ar y Cyd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol er dibenion rheolaeth datblygu - gweler paragraff 3.1.3 Polisi Cynllunio Cymru sy'n nodi: "*Gallai ystyriaethau perthnasol gynnwys yr amgylchiadau presennol, polisïau mewn cynllun datblygu sy’n cael ei baratoi a pholisïau cynllunio Llywodraeth Cymru. Dylid ystyried pob cais yng ngoleuni’r polisïau diweddaraf. ...*".

5.3 Er bod sawl polisi wedi'i drafod yn fanwl yn ystod Gwrandawiadau Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn, ni fyddwn yn gwybod yn sicr beth fydd cynnwys y Cynllun hyd nes y bydd yr Arolygydd yn cyflwyno ei adroddiad rhwymol.

5.4 Dywed paragraff 2.14.1 Polisi Cynllunio Cymru; " *...wrth ystyried faint o bwys i'w osod ar bolisïau penodol mewn CDLl sydd ar y gweill sy'n berthnasol i gynnig neilltuol, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yn ofalus y dystiolaeth waelodol a'r cefndir i'r polisïau. Gall polisi cynllunio cenedlaethol hefyd fod yn ystyriaeth berthnasol yn yr amgylchiadau hyn*".

5.5 Mae'r cais ei hun yn cynnwys sawl elfen, ceir crynodeb cyffredinol o'r egwyddor isod, ond prif bwyslais y datblygiad yw y gallai'r datblygiad gael ei ystyried yn atodol i ofynion prosiect gwella ffyrdd cenedlaethol. Byddai argaeledd safle sydd ag iddo fynediad uniongyrchol i'r cynllun ffyrdd hwn yn lliniaru yn erbyn effaith bosib cludiant trwm ar y seilwaith ffyrdd lleol. Byddai'r safle'n cael ei ddefnyddio fel canolfan ar gyfer gweithrediadau sy'n atodol i gynllun y ffordd osgoi, gan gynnwys swyddfeydd safle, peiriannau swp-brosesu concrid ac asffalt a chyfleuster prosesu deunyddiau.

5.6 Yn barod, mae'r chwarel yn elwa o ganiatâd cynllunio dilys ar gyfer echdynnu a gweithio clai oedd, hyd nes i'r gwaith gau yn 2008, yn echdynnu a phrosesu'r deunydd ar gyfer gweithgynhyrchu brics. Bu i gais ar gyfer penderfynu amodau dan ROMP, Deddf Amgylchedd 1995 a gymeradwywyd yn 2007 sicrhau cynllun gweithio hyd 2042. O ystyried fod chwarel Seiont wedi'i dosbarthu fel safle gweithredol, ni ellir herio'r egwyddor o ran echdynnu mwynau a gall y gweithrediadau mwynau ail-ddechrau dan delerau'r penderfyniad ROMP C00M/0441/14/MW ar unrhyw adeg yn ddirybudd. Byddai hyn yn cynnwys defnyddio'r llain galed concrid ar gyfer gweithrediadau atodol i'r gwaith o echdynnu a gweithio mwynau, gan gynnwys prosesu deunyddiau. Byddai hyn yn berthnasol hefyd i ddyddodion gweithio mwynau sydd wedi'u storio'n flaenorol ar lain caled concrid a phentyrrau stoc o frics wedi'u gosod o'r neilltu i'w gwerthu neu eu dosbarthu, a ellid eu prosesu ymhellach er mwyn cael agregau.

5.7 Ystyrir mai Polisi C3 y CDU a CYF 2 yn y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gorwel yw'r rhai perthnasol (*cynigion sy'n rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio tir neu adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen a leolir o fewn neu o gwmpas ffiniau datblygu cyn belled â bod y safle neu'r adeilad a'r defnydd yn addas*) o ystyried bod hwn yn gynnig i ailddefnyddio safle gyda chaniatâd cynllunio dilys a roddodd y gorau i weithredu yn 2008. Hefyd, datgan paragraff 4.9 Polisi Cynllunio Cymru, '*ffafrio ailddefnyddio tir'* fel a ganlyn; 'Mae'n bosibl y gallai llawer o safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen mewn ardaloedd adeiledig fod yn rhai addas i'w datblygu am y bydd eu hailddefnyddio'n hyrwyddo amcanion cynaliadwyedd' Bydd yr un ystyriaethau polisi o ffafrio defnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen hefyd yn berthnasol i sefydlu compownd dros dro ar lain galed safle'r cyn waith brics.

5.8 Er mwyn ailddefnyddio'r cyn waith brics, bydd gofyn am gyfnod paratoadol ynghyd â digon o amser i ddadgomisiynu'r safle a sicrhau ei fod yn cael ei adael mewn cyflwr sydd hyd foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ystyrir felly bod hyd y gweithrediadau sy'n gysylltiedig â'r defnydd dros dro a wneir o'r gwaith brics fel compownd safle yn adlewyrchu gofynion cynllun y ffordd osgoi a'i fod wedi'i gyfyngu'n addas i bum mlynedd o'r hysbysiad i'r cam o gychwyn y datblygiad.

5.9 Felly, ystyrir fod y datblygiad mewn egwyddor yn cydymffurfio â Pholisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol a Rhanbarthol ynghyd â gofynion Polisïau A1, A3 a C3 y Cynllun Datblygu Unedol a Pholisïau CYF 2, PCYFF 1 a TRA 1 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gorwel.

**Sŵn, Llwch a Mwynderau Preswyl**

5.10 O ran gweithrediadau atodol i echdynnu a gweithio clai a gorlwytho deunyddiau, rhaid nodi fod gwaith wedi dod i ben yn Chwarel Seiont ers 2008, gyda'r gwaith brics cysylltiedig wedi'i ddymchwel yn 2010. Mae'r safle wedi'i leoli gerllaw derbynwyr sensitif yn Ffordd Melin Seiont, Ysbyty Eryri, parc cyhoeddus Pont Seiont, Y Morfa, stad breswyl Parc Hendre ynghyd â nifer o anheddau gwasgaredig wedi'u lleoli i'r dwyrain o'r chwarel ac i'r gogledd o'r llwybr cludo arfaethedig a'r gwaith ar y ffordd osgoi. Saif eiddo ar Ffordd Melin Seiont sydd o fewn y byffer o 100m sydd wedi'i weithredu o ran y gweithfeydd mwynau fel sydd wedi'i nodi dan bolisi B12 y Cynllun Datblygu Unedol a Pholisi Mwyn 6 y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gorwel. Fodd bynnag, dywedir fod y byffer 100m yn weithredol yn barod o ran y datblygiadau a gwblhawyd dan delerau'r penderfyniad ROMP cyfredol ac ychydig, os o gwbl, o achosion o gwynion ynghylch gweithrediad y chwarel neu'r cyfleuster gweithgynhyrchu brics a gafwyd hyd nes iddo gael ei gau yn 2008.

5.11 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, tynnodd gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd sylw at bryderon posib ynghylch effeithiau sŵn, llwch ac aflonyddwch yn sgil gweithrediadau ar y safle a'r symudiadau traffig cysylltiedig â'r defnydd a wneir o'r safle fel compownd i gontractwr ond hefyd effeithiau cronnus o ran y gwaith o adeiladu'r ffordd osgoi. Mae'r cynnig yn wahanol i'r gweithgarwch a reoleiddiwyd o'r blaen, sef gwaith cynhyrchu brics gan fod yr holl weithgarwch/gwaith ar y safle am gael ei wneud yn yr awyr agored, yn hytrach nag o fewn muriau adeilad. Mae'r materion amgylcheddol allweddol i dderbyn sylw yn cynnwys Draenio, Ansawdd yr Aer, Allyriadau Sŵn a'r Posibilrwydd o Dir wedi'i Halogi.

5.12 Nid yw'r DA yn darparu rhestr o weithgareddau a wnaed fel rhan o'r datblygiad sydd â'r potensial i effeithio ar ansawdd yr aer a sŵn gan gynnwys ffurfio ffyrdd cludo, ynghyd ag adfer a phrosesu brics, concrid a deunyddiau eraill sy'n cael eu cludo i'r safle, swp-brosesu concrid ac asffalt a defnyddio peiriannau ac offer wedi'u pweru gan ddisel. Mae'r DA a baratowyd ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect y ffordd osgoi'n nodi y bydd angen 15,000$m^3$ o goncrid a 77,820 tunnell o ddeunydd wynebu ar gyfer y cynllun. Felly, mae posibilrwydd y bydd cynnydd mewn llygryddion aer ac effeithiau sŵn o ganlyniad i ailgychwyn gweithrediadau yn y safle ac mae'n bwysig nad ydyw gweithgareddau o'r fath yn cael effaith andwyol ar iechyd y cyhoedd. Yn ogystal â symudiadau cludo sy'n gysylltiedig â'r gwaith ar y ffordd osgoi, bydd yr effeithiau traffig sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn cynnwys cerbydau preifat a cherbydau danfon bychan sy'n defnyddio'r fynediad gyfredol i'r chwarel yn Ffordd Melin Seiont drwy gydol hyd y prosiect (oddeutu 25 symudiad yn y bore a chyda'r nos yn ôl eu trefn), ond hefyd nifer cyfyngedig o lwythwyr isel, llwythau annormal, lorïau *flat-bed* a cherbydau HGV eraill yn ystod y cyfnod tri mis o baratoi a dadgomisiynu sy'n gysylltiedig â'r gwaith.

5.13 Mae'r DA yn cyfeirio at Strategaeth Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU drwy ddatgan na fydd lefelau $PM_{10}$ yn fwy na 50µg/$m^3$ fel cymedr dyddiol gyda dim mwy na 35 achlysur ble mae'n uwch na hynny bob blwyddyn, a 40µg/m3 wedi'i fesur fel cymedr blynyddol. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, argymhellodd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd fod cynllun rheoli llwch yn cael ei baratoi a'i roi yn ei le gydag amodau priodol i reoli allyriadau o ddeunydd gronynnol $PM_{10}$ a $PM_{2.5}$, ynghyd â lefelau Nitrogen Deuocsid $NO_2$. Mae manylion y cais yn cadarnhau rhestr o fesurau i liniaru yn erbyn effeithiau posib llwch sy'n dianc ac sy'n effeithio ar dderbynyddion sensitif gan gynnwys isafu'r uchder gollwng o beiriannau'r safle, cyfyngiadau cyflymder ar y safle, defnyddio *bowser* dŵr ar lwybrau cludo, gwlychu ardaloedd prosesu a deunyddiau wedi'u prosesu a chadw log o gwynion yn ymwneud â llwch.

5.14 Fodd bynnag, erys gofyniad i fynd i'r afael ag effeithiau posib llwch drwy osod amodau safonol ac mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau ei barodrwydd i drafod gweithrediad rheolaethau cynllunio priodol. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn nodi'r gofyniad fod arolwg llwch yn cael ei gynnal am o leiaf chwe mis mewn lleoliadau wedi'u cytuno a bod gwaith mathru, sgrinio, trosglwyddo a gweithrediadau eraill sy'n debygol o arwain at lwch a gludir yn yr aer yn cael ei wneud mewn adeilad priodol. Mae angen trwydded i wneud gwaith mathru a sgrinio dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010, ond hefyd, mae angen i gerbydau HGV sy'n gadael y safle sicrhau nad oes unrhyw fwd, llwch na deunydd niweidiol arall yn cael ei drosglwyddo i'r briffordd gyhoeddus.

5.15 Ni chyflwynwyd unrhyw asesiad sŵn cefndirol i gefnogi'r cais, yn hytrach mae'r DA yn dyfynnu'r lefelau sŵn blaenorol a ddefnyddiwyd ar gyfer y penderfyniad ROMP yn 2007 a osodwyd mewn eiddo unigol. Er y bu'r gwaith brics yn weithredol am sawl blwyddyn heb i unrhyw gŵyn sŵn gael ei wneud, dylid ailasesu natur y gweithrediadau fydd yn cael eu gwneud yn yr awyr agored o ystyried nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r wybodaeth y bydd y lefelau cefndir cyfredol yr un fath â'r asesiad blaenorol a gynhaliwyd.

5.16 Mae'r cais yn cydnabod fodd bynnag fod potensial i'r holl weithrediadau yn y safle effeithio ar dderbynyddion sensitif sŵn a chynigir y dylid adeiladu bwnd cynnal sŵn newydd ar hyd ffin de-orllewinol safle'r cyn waith brics ble y bydd gweithrediadau yn cynnwys swp-brosesu concrid/asffalt a gwaith cynnal a chadw/trwsio cerbydau yn cael ei wneud.

5.17 Yn ogystal â'r mesurau lliniaru sŵn sydd wedi'u hymgorffori yn nyluniad y safle, mae'r cais yn cynnig cyfres o arferion rheoli da, gan gynnwys; cynnal a chadw'r ffyrdd cludo mewn cyflwr da i isafu *body slap* a dirgryniad o gerbydau, defnyddio larymau bagio ymarferol a diogel (e.e. sŵn gwyn), isafu uchder gollwng, osgoi refio injan, cynnal a chadw'r holl beiriannau mewn cyflwr da a gosod tawelyddion effeithiol arnynt a gorchuddion acwstig a defnyddio pympiau a generaduron wedi'u pweru'n electronig ble bo angen.

5.18 Mae'r gwasanaeth gwarchod y cyhoedd yn argymell y canllawiau ar gyfer sŵn yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (Agregau) ac yn argymell, yn absenoldeb arolwg dangosol o sŵn cefndirol i gyfiawnhau cyfyngiadau ROMP 2007, gosod yr amodau a ganlyn ar unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir:-

- o Yn ystod oriau gwaith arferol (0700-1900), ni ddylai'r lefel graddfa sŵn fod yn fwy na 55dB(A) LAeq, 1 awr (*free field*). Gyda'r nos (1900-2200), ni ddylai'r cyfyngiadau fod fwy na 10dB(A) yn fwy na'r lefel cefndirol ac ni ddylai'r cyfyngiadau yn y nos fod yn fwy na 42dB(A) LAeq, 1 awr *free field* mewn anheddau sy'n sensitif i sŵn. (MTAN1).
- o Gweithrediadau dros dro i fod ddim mwy na 70 dB LAeq, 1 awr (*free field*) am hyd at 8 wythnos y flwyddyn.
- o Arolwg monitro sŵn yn unol â chais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, i'w gynnal yn unol â Safon Brydeinig BS.4142:2014 *'Methods for rating and assessing industrial and commercial sound'*, i asesu ac arddangos cydymffurfiaeth â'r cyfyngiad sŵn ffiniol.
- o Rhaid i'r awdurdod lleol gymeradwyo peiriannau penodol a dulliau rheoli neu liniaru sŵn cysylltiedig cyn y gosodir ac y gweithredir y peiriannau a'r cyfarpar gan gynnwys lefelau pŵer sŵn penodol cyn y'u defnyddir ar y safle.

5.19 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae potensial i sŵn gweithredol o draffig y ffordd effeithio ar eiddo sydd wedi'u lleoli rhwng y chwarel a Phont Seiont. Dylid cyfyngu'r

oriau gweithredu er mwyn osgoi symudiadau gormodol o ran cerbydau HGV yn teithio i'r chwarel ac oddi yno, drwy ardaloedd preswyl yn gynnar yn y bore ac yn ystod y nos. I leihau unrhyw effaith, gellir gosod amod ar y safle i sicrhau na fydd danfoniadau'n digwydd na deunyddiau wedi'u prosesu'n cael eu symud, ac eithrio yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a ganlyn:

- Rhwng 0700 a 1800 ddydd Llun i ddydd Gwener;
- Rhwng 0700 a 1300 ddydd Sadwrn;
- Dim danfoniadau ar ddyddiau Sul nac ar Wyliau Cyhoeddus;
- Cofnodion ysgrifenedig o holl symudiadau cludiant i fod ar gael ar gais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau

5.20 Ystyrir y gall y safle weithredu heb effeithio’n andwyol ar fwynderau’r ardal yn unol â'r amodau cynllunio a roddwyd i reoli'r gweithgareddau ynghyd ag arferion da ac atodlen o fesurau ymarferol a gynigwyd yn y cais. I liniaru yn erbyn effeithiau posib y datblygiad, mae'r amodau sŵn a llwch perthnasol yn cynnwys gofyn am fonitro blynyddol a bod yr amseroedd gweithredu'n aros yr un fath â'r cyfredol; 07:00 - 19:00 ddydd Llun i ddydd Gwener; 07:00 - 13:00 ddydd Sadwrn a dim gweithio mwynau i'w wneud ar ddydd Sul, Gwyliau Banc a Gwyliau Cyhoeddus.

5.21 Yn sgil gosod amodau cynllunio i gyfyngu ar effeithiau sŵn, llwch, cludo, oriau gweithio a hyd y prosiect (3 blynedd i ganiatáu ar gyfer mewnforio deunydd a 4 blynedd i gyd), ystyrir bod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisi B23, B30, B33 y CDU (mwynderau) ynghyd â Pholisi CYFF 1 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gorwel.

**Mwynder Gweledol**

5.22 Mae Chwarel Seiont yn gorchuddio ardal sylweddol i'r de o Gaernarfon sy'n ymestyn o arglawdd coediog Afon Seiont i'r gorllewin a phorfeydd tonnog sy'n ei chysylltu ag anheddiad Caeathro tua'r dwyrain. Mae safle'r cais yn mesur 3.7ha ac yn cynnwys llain galed concrid gwastad, wedi'i leoli i'r de-orllewin o fwnd o wastraff mwynau sydd wedi'i ddyddodi dros sawl blwyddyn a ffordd gludo gyfredol sy'n cysylltu â llwybr y ffordd osgoi sy'n torri ar draws wyneb gweithio'r chwarel.

5.23 Mae arwyddocâd posib effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol yn cael eu pennu drwy gyfuniad o raddfa'r effaith bosib a sensitifrwydd y dirwedd tuag at newid. Byddai’r datblygiad arfaethedig yn achosi effeithiau uniongyrchol ar dirwedd safle’r cais yn ystod y cyfnod gweithredol ac mae hyn anochel oherwydd natur y gweithrediadau. Mae effeithiau gweledol a thirwedd posib yn cynnwys cyfuniad o weithfeydd safle, symudiadau cerbydau, stoc-bentyrru a thwmpathau sgrinio. Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi ystyried sensitifrwydd y dynodiadau tirwedd cyfagos, ardaloedd preswyl a derbynyddion hamdden yng nghyd-destun defnydd dros dro y cyn waith brics fel compownd gwaith. Yn gysylltiedig â hyn, mae'r asesiad o'r effaith amgylcheddol a’r effaith ar y dirwedd wedi ystyried gwaelodlin yr effeithiau ar y prif dderbynyddion gweledol gan gynnwys dynodiadau tirwedd statudol ac anstatudol, llwybrau hamdden, parciau a gerddi cofrestredig, Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, asedau treftadaeth ddiwylliannol a gwybodaeth a gafwyd o Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd Strategol gan yr awdurdod lleol a system ddata LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru.

5.24 Mae'r effaith ar ddynodiadau statudol yn ddibwys o ystyried eu pellter o'r datblygiad arfaethedig ac o ystyried presenoldeb nodweddion tirwedd ac amgylchedd adeiledig hefyd, byddai'n anodd iawn gwahaniaethu'r datblygiad o'r dirwedd bresennol. Cytunir hefyd yn y crynodeb o arwyddocâd yr effaith ar y dirwedd fod yr effeithiau

posib ar y 26 ardal cymeriad y dirwedd a nodwyd yn yr asesiad yn ddibwys yn gyffredinol. Er bod graddfa'r gweithfeydd a safle'r cyn waith brics yn sylweddol, yn gyffredinol, mae'r safle yn cael ei sgrinio'n dda gan lystyfiant aeddfed, topograffi o'i amgylch ac amgylchedd maestrefol Caernarfon. Byddai'r newid gweledol mwyaf yn digwydd i'r gogledd-orllewin o'r pwll clai ble mae ffordd gludo newydd sy'n cysylltu â safle adeiladu'r ffordd osgoi yn cael ei chynnig mewn ardal o dir ffermio sy'n cael ei bori. Byddai eiddo a derbynyddion sensitif eraill gerllaw'r safle yn profi newid yn ystod gwahanol gamau o'r datblygiad. Byddai Ysbyty Eryri a'r llwybr troed sy'n rhedeg ar hyd Afon Seiont o'r A4085 i Ffordd Melin Seiont yn cael eu heffeithio dros dro gan sefydliad a gweithrediad compownd y safle a'r gwaith o adeiladu ffordd gludo newydd.

5.25 Felly, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor o ran bod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisïau B8, B12, B14, B27 a C3 y Cynllun Datblygu Unedol ynghyd â Pholisïau PCYFF 1, AMG 2, AT 1 a'r Polisi AHNE newydd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gorwel.

**Treftadaeth Ddiwylliannol**

5.26 Mae'r DA yn darparu rhestr o ddeddfwriaeth a chanllawiau cynllunio fel cefndir i'r asesiad o effeithiau amgylcheddol y cynnig ar nodweddion hysbys o fuddion diwylliannol, henebion, asedau treftadaeth ac adeiladau rhestredig. Mae'r meini prawf asesu a gwerthusiad o'r cynigion datblygu yn gymharus â'r fethodoleg sy'n cael ei chymhwyso i'r effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol er mwyn penderfynu ar yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol.

5.27 Mae Caernarfon yn gyfoeth o asedau treftadaeth ddiwylliannol ac mae'r safle wedi'i leoli o fewn 1.5km o Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon a Waliau'r Dref, Caer Rufeinig Segontium ac Eglwys Llanbeblig. Yn ogystal, mae adeiladau rhestredig Gradd II, Bryn Eglwys a Bryn Eden yn agos i'r chwarel a gwaith ar y ffordd osgoi ynghyd â Pharc Rhestredig Gradd II yn dyddio nôl i'r 19eg Ganrif wedi'i ddylunio o amgylch llyn artiffisial ger Ffordd Melin Seiont, oddeutu 250 medr o'r rhan agosaf o safle'r cais.

5.28 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, mae CADW yn cadarnhau eu bod yn cytuno â'r asesiad treftadaeth ddiwylliannol na fyddai effaith y cynigion ar Barc rhestredig Gradd II Y Morfa yn arwyddocaol. Mae compownd y safle wedi'i sgrinio'n dda ond efallai y ceir golygfeydd rhannol o lorïau'n defnyddio'r llwybr cludo o Gastell Caernarfon a Waliau'r Dref yn ystod y cyfnod adeiladu. Fodd bynnag, o'r safle hwn, dim ond rhan gyfyngedig o'r amlen weledol gyfan fyddai unrhyw waith cysylltiedig â'r ffordd osgoi a'r llwybr cludo yn ei gymryd ac felly, ni ystyrir y bydd hyn yn cael effaith arwyddocaol hirdymor ar Werth Cyffredinol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd. Yn ogystal, mae'r adroddiad hwn yn gytûn â chasgliadau'r asesiad treftadaeth ddiwylliannol mai dibwys fyddai’r effeithiau anuniongyrchol ar asedau treftadaeth ehangach, adeiladau rhestredig ac ardal gadwraeth o fewn anheddiad 19eg Ganrif Caernarfon.

5.29 Fel y crybwyllwyd yn barod, mae adeiladau rhestredig yn agos i'r chwarel a allai gael eu heffeithio gan y cynigion datblygu yn ystod y cam adeiladu yn sgil effaith sŵn, llwch ac aflonyddwch. Fodd bynnag, o ystyried lleoliad y chwarel a'r llwybr cludo cysylltiedig mewn perthynas â'r ffordd osgoi ac eiddo Bryn Eglwys (sy'n cael ei effeithio), a'i leoliad dros 200 metr i'r de, ystyrir y byddai unrhyw sgrinio ffisegol ar

ffurf argloddiau neu fwndiau pridd yn well pe byddai'r mesurau lliniaru'n cael eu hymgorffori'n rhan o ddyluniad y gwaith o adeiladu'r ffordd osgoi.

5.30 Dylid ystyried maint y newid ac unrhyw effeithiau andwyol yng nghyd-destun cynigion y ffordd osgoi sy'n cyfrannu at ran helaethaf yr effaith andwyol uniongyrchol a pharhaol – yn weledol ac ar y dirwedd. O ystyried yr effeithiau dros dro, byrdymor sy'n gysylltiedig â'r defnydd o Chwarel Seiont yn ystod oes cytundeb y ffordd osgoi, ni ystyrir y byddai effaith gronnus y cynigion datblygu sy'n cael eu hystyried yma yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar osodiad yr adeiladau rhestredig.

5.31 O ran unrhyw effaith uniongyrchol ar y cynigion datblygu, cytunir â'r asesiad effaith diwylliannol fod y cynigion datblygu sy'n gysylltiedig â defnyddio'r chwarel fel compownd gwaith wedi'u cyfyngu i safle'r cyn waith brics a'r gweithfeydd chwarel ble y bwriedir ail-alinio'r llwybr cludo presennol. Mae'r safle wedi dioddef peth aflonyddwch o'r gweithfeydd mwynau yn ddiweddar ac ni fydd y newid defnydd safle’r cyn waith brics, dros dro, i gompownd gwaith yn cynnwys unrhyw waith dymchwel pellach i'r hyn a wnaed yn barod yn 2010 a 2013. Felly, bydd y lleiniau caled concrid a rhedwyr metel y cyn waith brics yn aros fel ag y maent.

5.32 Mae'r asesiad Treftadaeth Diwylliannol yn cyfeirio at ffynonellau ysgrifenedig o waith archeolegol gan gynnwys y rhan o'r llwybr cludo deheuol fydd yn ymestyn o'r cyn waith brics ar hyd cafnau'r chwarel i fyny tua llwybr y ffordd osgoi. Roedd Prosiect GAT Rhif G1952, Adroddiad Rhif 687 yn cynnwys briff gwylio a gynhaliwyd ym mis Hydref 2007 mewn perthynas â'r stribed pridd diwethaf yn Seiont, yn union gyferbyn â llinell llwybr y ffordd osgoi. I grynhoi, mae'r adroddiad yn cloi fel a ganlyn; “*an archaeological watching brief has been conducted during the expansion of the Seiont Brickworks Quarry, Gwynedd. No archaeological features were identified and all activity below the topsoil was interpreted as glacial in origin. It was determined that agricultural use was limited to pasture as the glacial boulders were too prevalent to facilitate cultivation*”.

5.33 Bydd y Safle Daearegol o Bwys Rhanbarthol (RIGS), yn bennaf, yn cael ei effeithio gan gynigion y ffordd osgoi a bydd datgelu gwaddodion rhewlifol yn darparu cyfleoedd i astudio ymhellach. Mae llawer o sôn ynghylch y safle hwn fod y gwaith o dorri a chloddio'r dyddodion mwynau wedi darparu data pwysig ar drefn a natur y digwyddiadau Cwaternaidd. Pen y Bryn yw'r unig safle o fewn rhwydwaith o safleoedd stratigraffeg Cwaternaidd ar draws Ynys Môn, Llŷn ac arfordir Gwynedd i gynnwys dyddodion organig o'r oes gyn-rewlifol. Mae caniatâd cynllunio yn bodoli'n barod ar y penderfyniad ROMP i gyfrif am, a dogfennu, unrhyw beth a ddatgelir yn ystod y gwaith o gloddio mwynau a gellid ail-adrodd yr un amodau ar unrhyw ganiatâd pellach a roddir.

5.34 Wrth osod amodau cynllunio priodol fel y nodwyd uchod, mae'r cynnig felly'n cydymffurfio â Pholisi B3, B6, B7, B12 a B18 CDU Gwynedd, ond hefyd â Pholisi AMG 2, AT1 a AT4 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gorwel.

**Effeithiau Priffyrdd**

5.35 Mae'r Datganiadau Amgylcheddol yn darparu asesiad cynhwysfawr o'r effeithiau traffig cysylltiedig â defnyddio'r safle mewn cysylltiad â'r gwaith o adeiladu'r ffordd osgoi. Mae buddion economaidd, logistaidd ac amgylcheddol i'w cael o ddefnyddio'r chwarel o ran yr effeithiau ar y briffordd, o ystyried ei bod wedi'i lleoli yn uniongyrchol gerllaw llwybr y ffordd osgoi arfaethedig. Drwy ddewis defnyddio'r

chwarel gyda chysylltiad uniongyrchol i'r ffordd osgoi drwy ffyrdd cludo mewnol, ni fyddai gofyn defnyddio cerbydau HGV ar ffyrdd cyhoeddus ar gyfer unrhyw symudiadau cludo deunyddiau i'r chwarel ac oddi yno. Mae'r DA yn darparu senario cymharu i gyfrif am yr holl ffynonellau llenwi ar gyfer cynllun y ffordd osgoi ynghyd â defnyddio'r chwarel fel ystorfa ar gyfer gwaredu deunyddiau, gan ddefnyddio llwybr cludo oddi ar y ffordd ar egwyddor llwyth dychwelyd.  Er dibenion y cais hwn, fodd bynnag, dim ond y gofynion deunyddiau a'r symudiadau cerbyd cysylltiedig mewn perthynas â defnyddio'r safle fel compownd safle sy'n cael eu hystyried. Mae'r DA a baratowyd ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect y ffordd osgoi'n nodi y bydd angen 15,000m$^3$ o goncrid a 77,820 tunnell o ddeunydd wynebu ar gyfer y cynllun.

5.36 Yn ogystal â symudiadau cludo sy'n gysylltiedig â'r gwaith ar y ffordd osgoi, bydd yr effeithiau traffig sy'n gysylltiedig â defnyddio safle'r gwaith brics yn cynnwys ar gyfer cerbydau preifat a cherbydau danfon bychan sy'n defnyddio'r fynediad gyfredol i'r chwarel yn Ffordd Melin Seiont trwy gydol hyd y prosiect (oddeutu 25 symudiad yn y bore a chyda'r nos yn ôl eu trefn), ond hefyd nifer cyfyngedig o lwythwyr isel, llwythau annormal, lorïau *flat-bed* a cherbydau HGV eraill yn ystod y cyfnod tri mis o baratoi a dadgomisiynu sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Yn ystod cyfnod adeiladu'r ffordd osgoi, disgwylir oddeutu 60 o staff ar y safle ar unrhyw adeg fydd yn teithio mewn car yn ddyddiol ac yn defnyddio'r cyfleusterau parcio ceir ar y safle a ddarperir o fewn compownd y contractwr. Yn sgil y cyfnod byr y bydd y chwarel yn cael ei defnyddio a'i hadfer yn gysylltiedig â gwaith y ffordd osgoi, mae'r DA yn cadarnhau fod y daw'r defnydd a wneir gan draffig y chwarel  o fynediad bresennol y chwarel o Ffordd Melin Seiont i ben pan gwblheir y prosiect.

5.37 Prif bwyslais y datblygiad yw y gellir ei ystyried fel elfen atodol o ofynion prosiect gwella ffyrdd cenedlaethol. Byddai argaeledd safle sydd ag iddo fynediad uniongyrchol i'r cynllun ffyrdd hwn yn lliniaru yn erbyn effaith bosib cludiant trwm ar y seilwaith ffyrdd lleol ynghyd â darparu dull egwyddor agosrwydd o ran anghenion y prosiect.

5.38 Fel y nodwyd yn barod, mae'r effeithiau cludo cysylltiedig â defnyddio'r chwarel yn arwyddocaol ac felly fe ystyrir y dylid cyfyngu'r cynigion sy'n ymwneud â mewnforio deunyddiau yn gysylltiedig â chynigion y ffordd osgoi i'r llwybrau cludo sydd wedi'u dangos ar gynlluniau'r cais a'u cyfyngu i bedair blynedd o'r hysbysiad o gychwyn y datblygiad.  Felly, mae'r cynnig yn cydymffurfio â Pholisi CH33 a CH36 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, ynghyd â Pholisi PS 5 a TRA 1 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gorwel.

**Draeniad, Amgylchedd Dŵr a Thir wedi'i Halogi**

5.39 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau ers i'r gwaith echdynnu clai gael ei wneud ddiwethaf yn 2007, mae swmp y chwarel wedi gorlifo i ffurfio ardal ddyfrol o oddeutu 15m o ddyfnder, ac mae lefel y dŵr yn cael ei reoli drwy ffos gorlifo sy'n gollwng i Afon Seiont oddeutu 13m UDO. Pan oedd y chwarel yn weithredol, bu'r swmp yn gweithredu fel trap silt a lagŵn setlo ar gyfer yr holl ddŵr sy'n draenio o fewn yr ardal gloddio ond yn ogystal fe bwmpiwyd dŵr o bryd i'w gilydd i lagŵn setlo eilaidd yng nghornel de-orllewinol y gwaith brics.  Yn ogystal, byddai'r lagŵn hon yn rhyng-gipio dŵr wyneb o'r ardal weithredol gyfagos gan gynnwys rhan o iard y cyn waith brics.

5.40 Cynigir defnyddio'r cyn waith brics fel compownd i gontractwyr gan gynnwys cyfleusterau lles staff, storfa danwydd, tanc storio dŵr aflan, sied cynnal a chadw ynghyd â chyfleusterau swp-brosesu concrid ac asffalt.

5.41 Mewn ymateb i'r ymarferiad ymgynghori cyn gwneud cais, cynhaliodd Dŵr Cymru, fel yr ymgymerwr carthffosiaeth statudol, asesiad o'r gollyngiadau aflan a ragwelir o'r datblygiad arfaethedig, ynghyd â mesurau lliniaru fel bo modd cysylltu i'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Mewn ymateb i'w pryderon ynghylch gorlwytho'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff, cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai'n defnyddio; '*tanc storio symudol uwchben y ddaear*' i storio unrhyw garthion a grëir ar gyfer oes y prosiect. Mewn ymateb, mynegodd CNC a Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd eu bod yn ffafrio cysylltu â'r brif garthffos, o ystyried fod y safle bellter rhesymol o'r seilwaith trin cyfredol ac er mwyn dilyn yr hierarchaeth draenio. Fodd bynnag, mae CNC yn cydnabod mai dros dro yw'r gwaith ac efallai nad ydyw'n ddichonadwy dilyn yr hierarchaeth hon yn sgil cost yr uwchraddio gofynnol, yr amser a gymer i weithredu unrhyw waith uwchraddio a'r gost bosib o gael gwared ar y seilwaith sydd wedi'i ddylunio i fod yn rhywbeth parhaol ar ddiwedd prosiect byr.

5.42 Mae CNC wedi darparu rhestr gynhwysfawr o sylwadau sy'n amlinellu rhestr benodol o ofynion ac amodau i'w gosod ar unrhyw ganiatâd a roddir, gan gynnwys gofyniad i nodi manylion cyflawn y tanc storio dŵr aflan i gael ei gyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol cyn cychwyn gwaith gydag amod pellach yn gofyn bod unrhyw seilwaith dros dro sy'n ymwneud â draeniad aflan/carthffosiaeth ar y safle wedi'i ddigomisiynu'n llwyr ac wedi'i symud o'r safle pan ddaw'r caniatâd i ben.

5.43 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gofyn ar gyfer rheoli datblygiadau a risg llifogydd, " *Mae'n hanfodol bod awdurdodau cynllunio yn cael cyngor gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac yn rhoi'r pwys dyladwy ar y cyngor hwnnw fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol* ". Yn ogystal, mae NCT15 yn nodi ymhellach fod a ddylid bwrw ymlaen â datblygiad neu beidio yn dibynnu ar p'un a oes modd rheoli canlyniadau llifogydd y datblygiad hwnnw hyd lefel sy'n dderbyniol ar gyfer natur/math y bwriad a gynigir, h.y. Asesiad Canlyniadau Llifogydd. Mae'r safle wedi'i leoli'n rhannol mewn C2 yn unol â Mapiau Cyngor Datblygu NCT 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd Datgan CNC fod yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd a gyflwynwyd i gefnogi'r cais yn darparu amcangyfrif cywir o'r risg llifogydd posib sy'n dangos fod y rhan o'r safle y gellir ei ddatblygu (adeiladau'r safle a'r ardaloedd parcio ceir) am barhau heb lifogydd am ddigwyddiadau llifogydd amrywiol gan gynnwys y digwyddiad llifogydd eithafol (0.1% AEP neu ddigwyddiad 1 mewn 1000). Efallai y cesglir na fydd y datblygiad yn cynyddu llifogydd rywle arall ac fe allai ffordd gludo'r safle ddarparu dewis amgen, neu ddihangfa dros dro ar gyfer deiliaid Ffordd Melin Seiont yn ystod digwyddiadau llifogydd.

5.44 Nid yw'r safle wedi'i gynnwys ar gofrestr yr Awdurdod o dir wedi'i halogi ond o ran ymdrin â thir ble mae posibilrwydd ei fod yn ansefydlog neu wedi'i halogi, datgan paragraff 13.5.1 Polisi Cynllunio Cymru; "*Dylai'r system gynllunio arwain datblygiad er mwyn lleihau'r risg o beryglon naturiol neu rai a achosir gan bobl, gan gynnwys y perygl o ansefydlogrwydd tir a thir wedi'i halogi. Ni atal datblygiad ar dir o'r fath yw'r nod, fodd bynnag, efallai mai hyn fydd yr ymateb priodol mewn rhai achosion. Y nod yw sicrhau fod y datblygiad yn addas a bod y cyfyngiadau ffisegol ar y tir, gan gynnwys yr effeithiau newid hinsawdd a ragwelir, yn cael eu hystyried ym mhob cam o'r broses gynllunio. Fodd bynnag, y datblygwr sy'n parhau i fod yn gyfrifol am bennu graddfa ac effeithiau'r ansefydlogrwydd neu'r risgiau eraill. Rhaid i'r datblygwr sicrhau fod y tir yn addas ar gyfer y datblygiad a fwriedir, gan nad oes gan awdurdod cynllunio ddyletswydd gofal tuag at dirfeddianwyr.* ".

5.45 Mae Pennod 10 y DA a'r atodiadau cefnogol; '*condition report, ground contamination investigation and risk assessment'*, yn casglu fel a ganlyn; "*the results of sampling and analysis have not identified any contamination within the ground strata at the site that could be a risk to human health other than very low quantities of asbestos. However the majority of the site is already covered with a concrete slab, which will remain, and other areas of the site not surfaced will be capped with a sealed surface or aggregate to allow vehicle movement within the site compound. The risk of human exposure to the ground strata is therefore negligible*" ac yn ogystal;" ……*no elevated concentrations of contaminants were identified and therefore there is no source to leach. In the absence of any leached contaminants there can be no risk to controlled waters*".

5.46 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, dywed CNC fod dyfroedd wedi'u rheoli dan y safle ddim yn safleoedd amgylcheddol sensitif o'r radd uchaf a chan dybio nad oes halogiad yn bresennol yn y lleoliad hwn, dylid dilyn gofynion PCC a'r Egwyddorion Arweiniol ar Halogiad Tir. Os canfyddir halogiad, dylai'r ACM ail-ymgynghori â CNC ac argymell y dylai'r datblygwr ddilyn eu fframwaith rheoli risg hwy ynghyd â'u gweithdrefnau model a'r Egwyddorion Arweiniol ar Halogiad Tir ac Egwyddorion a'r Egwyddorion a'r Ymarferion ar gyfer Amddiffyn Dŵr Daear (GP3),

5.47 Mae CNC a Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd yn argymell amod cynllunio i nodi os canfyddir halogiad, nad oedd wedi'i ganfod yn flaenorol, yn ystod y datblygiad, ni wneir unrhyw waith datblygu pellach (ac eithrio pan fo hyn wedi'i gytuno yn ysgrifenedig fel arall), hyd nes fo strategaeth adfer yn cael ei chyflwyno i'r ACM am gymeradwyaeth.

5.48 Yn sgil y sylwadau uchod ac yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, bydd gofyn i Gyngor Gwynedd, fel awdurdod cynllunio mwynau, gyflwyno hysbysiad wrth roi unrhyw ganiatâd; "*nodyn i'r ymgeisydd mai cyfrifoldeb ac atebolrwydd canlynol y datblygwr ac/neu'r tirfeddiannwr yw datblygu a meddiannu'r safle'n ddiogel. Dylai hefyd gynghori'r ymgeisydd, er bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi ymdrechu i benderfynu'r cais yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael iddo, nid yw hyn yn golygu nad oes halogiad yn y tir.* ".

5.49 Yn ogystal, mae gofyniad ar gyfer rheolaeth amgylcheddol gyffredinol y gweithrediadau dyddiol gan gynnwys gosod offer rhyng-gipio olew mewn systemau draenio dŵr wyneb, digon o ddarpariaeth i ddal dŵr ffo o fewn yr ardaloedd storio deunyddiau a gweithio gan gynnwys atal deunydd draenio sy'n llawn gwaddodion sy'n llifo o ffyrdd cludo rhag mynd i fewn i unrhyw gwrs dŵr a gofyniad i fonitro'r holl fesurau atal llygredd aer i sicrhau nad yw corff dŵr daear Llŷn ac Eryri'n cael ei ddirywio ymhellach.

5.50 Mae'r ymgeisydd yn cadarnhau yn y Datganiad Amgylcheddol y bydd Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu yn cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnod gweithredu er mwyn sicrhau arfer dda a mesurau lliniaru i amddiffyn yr amgylchedd dyfrol. Dylai cynnwys manylion o'r fath dan amodau cynllunio grynhoi sgôp y datblygiad dan ystyriaeth, amodau gwaith ar y safle a mesurau i reoli effeithiau amgylcheddol megis symudiadau cerbydau HGV, cyfleusterau golchi olwynion, gorchuddio cerbydau, ardaloedd storio diogel, ansawdd aer, oriau gwaith, sŵn/dirgryniant, rheoli gwastraff a llygredd. Yn ogystal, dylai'r Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu amlinellu cynllun o reolaeth amgylcheddol, e.e. monitro dŵr ffo posib o ddeunyddiau llaid a gwastraff i liniaru ardrawiad amgylcheddol posib y datblygiad a'r gweithdrefnau arllwyso. Fodd bynnag, er y gallai fod yn ddichonadwy gwneud cais fod adroddiad

yn cael ei gyflwyno dan amod i arddangos eu cydymffurfiaeth, nid bwriad hyn fyddai dyblygu rheolaethau dan gylch gwaith CNC a fyddai fel arall yn ofyniad Caniatâd Amgylcheddol.

5.51 Bydd y safle angen trwyddedau gweithredu ar wahân gan Gyfoeth Naturiol Cymru gan gynnwys caniatâd i ollwng i'r ddaear neu'r cwrs dŵr, ynghyd â chaniatâd dan Reoliadau Caniatâd Amgylcheddol ar gyfer gweithrediadau gwaredu dŵr. Felly, y bwriad gydag unrhyw ganiatâd a roddir yw cyflwyno nodyn i'r ymgeisydd i ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a Gwasanaeth Rheoli Llifogydd / Erydiad Arfordirol Cyngor Gwynedd a Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd ar unrhyw faterion sy'n syrthio'n uniongyrchol dan eu cylch gwaith.

5.52 O safbwynt asesu materion cynllunio, ystyrir bod y cais a'r Datganiad Amgylcheddol yn rhoi asesiad cynhwysfawr a lliniaru addas i faterion sy'n ymwneud â rheoli llif dŵr wyneb, perygl o lifogydd, gwarchod yr amgylchedd, ac atal llygredd, ac mae'r cynnig yn cydymffurfio â gofynion A1, A3, B28, B32, B33 ac C3 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn ogystal â Pholisïau PS6, PS18, PS19, CYFF 1 a CYFF5 y Cynllun Datblygu Lleoli ar y Cyd sydd ar y gorwel.

**Bioamrywiaeth**

5.53 Mae materion yn codi gyda'r cais hwn parthed bioamrywiaeth y gellir eu hystyried ar nifer o lefelau. Nid yw'r safle ei hun yn destun unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol megis ACA Ewropeaidd neu ddynodiad SoDdGA ac, ar y cyfan, nid yw'n cynnwys unrhyw gyfyngiadau bioamrywiaeth lleol, ac eithrio'r hen storfa frics sydd yn ystum yr afon ac sy'n cynnwys murddunnod a choetir llydanddail aeddfed, sy'n safle bywyd gwyllt dynodedig lleol o dan bolisi B17 y Cynllun Datblygu Unedol.

5.54 Mae llwybrau eisoes yn bodoli, fodd bynnag, sy'n cysylltu'r safle â dynodiadau ACA statudol yn y dirwedd ehangach. Mae Cyngor Gwynedd, fel awdurdod cymwys er dibenion Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y’i diwygiwyd) wedi cynnal prawf am effeithiau sylweddol tebygol a cheir crynodeb o'r canlyniadau isod (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau).

5.55 Er nad yw'r rhan fwyaf o Chwarel Seiont yn Safle Bywyd Gwyllt dynodedig, mae gwasanaeth Bioamrywiaeth y cyngor yn datgan ei bod yn debygol ei fod yn cynnal nifer o rywogaethau o bwys cenedlaethol a lleol gan gynnwys adar sy'n nythu, gwas y neidr a mursennod, ymlusgiaid, ystlumod, moch daear, dyfrgwn ac anifeiliaid di-asgwrn cefn, yn benodol glöyn byw y *Dingy Skipper* sydd wedi ei restru o dan adran 7 Deddf Amgylchedd 2016, fel rhywogaeth â blaenoriaeth i fioamrywiaeth yn y DU.

5.56 Gyda gweithrediadau mwynau wedi dod i ben ers 2008 a dymchweliad dilynol y gwaith cynhyrchu brics, mae'r chwarel wedi datblygu'n safle o werth bioamrywiaeth uchel, gan gynnwys ymsefydliad coed wedi'u plannu ac adfywiad naturiol. O ran rhywogaethau gwarchodedig, mae'n debygol bod y safle'n cefnogi rhywogaethau o ddyfrgwn, moch daear, ymlusgiaid ac adar sy'n nythu sydd wedi'u gwarchod yn statudol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Fodd bynnag, mae'r cynigion dan ystyriaeth yma wedi'u cynnwys o fewn tir a ddatblygwyd yn barod, er y gellid gosod amod i ddarparu mesurau lliniaru ar gyfer unrhyw effeithiau posib ar rywogaethau gwarchodedig.

5.57 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau arolwg o Afon Seiont a'r chwarel trwy gerdded drostynt er mwyn adnabod unrhyw nodweddion sensitif a sefydlu bodolaeth neu ddiffyg gweithgaredd dyfrgwn. Mae Afon Seiont yn cael ei defnyddio gan

ddyfrgwn er y gallai swmp y chwarel a'r ffos wlyb ddarparu coridor sy'n addas ar gyfer symudiadau dyfrgwn i mewn ac allan o amgylchedd yr afon. Mae'r DA yn casglu nad oedd unrhyw dystiolaeth ar adeg yr arolwg i gadarnhau fod y safle ei hun yn cefnogi poblogaeth o ddyfrgwn.

5.58 Cofnodwyd clwydfan gaeafgysgu i'r ystlum pedol leiaf mewn adeilad adfeiliedig yn ardal yr hen storfa frics a hefyd fodolaeth yr ystlum hir-glust brown, *pipistrelle* cyffredin, *soprano pipistrelle myotis*, ac ystlumod *noctule* yng nghyffiniau'r safle. Mae'r chwarel yn cynnwys cynefinoedd porthiant addas i ystlumod pedol leiaf megis prysg, glaswelltir a choetir.

5.59 Gall y datblygiad gael effaith ar borthiant a llwybrau cymudo ystlumod a dylid cyflwyno cynllun goleuo am gymeradwyaeth gan yr awdurdod cynllunio mwynau. Yn ogystal, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig cyn clirio unrhyw lystyfiant aeddfed/nodweddion llinol a allai fod yn cael eu defnyddio gan ystlumod. Mae'r DA yn datgan bod: "*mesurau lliniaru am gael eu cynnwys yn y datganiadau gweithdrefnau, gan gynnwys arolwg cyn dechrau gwaith o unrhyw goed sydd angen eu gwaredu, a strategaeth oleuo. Bydd y strategaeth oleuo'n sicrhau bod cyn lleied o oleuo artiffisial a phosib ac y'u cyfeirir oddi wrth nodweddion cynefinoedd megis gwrychoedd ac ymyl coedlannau sy'n cael eu defnyddio gan ystlumod, o bosib, a bydd yr egwyddorion canlynol yn cael eu dilyn:*

- o *osgoi defnyddio goleuadau y tu allan pryd a phle bynnag y bo'n bosib;*
- o *isafu'r cyfnod y bydd goleuadau y tu allan ymlaen; a*
- o *rheoli cyfeiriad goleuadau er mwyn i gyn lleied o olau â phosib ddianc y tu hwnt i'r Compownd Adeiladu*".

5.60 Gall manylion unrhyw oleuo allanol fod yn destun amod cynllunio, felly hefyd gall cael gwared â llystyfiant. Fodd bynnag, y farn ragosodedig parthed defnyddio'r llwybr cludo presennol at ddibenion y datblygiad yw, cyn cau'r safle yn 2008, defnyddir y llwybr cludo fel y prif fodd o gludo mwynau o wyneb y gwaith i'r safle gweithgynhyrchu brics h.y. yn unol â'r caniatâd a bennwyd gan ROMP. Byddai unrhyw beirianwaith ar y llwybr cludo yn gofyn am gael gwared ag adferiad y coed bedw sydd wedi ymsefydlu yn ochrau gorllewinol y chwarel. Gan fwyaf, fodd bynnag, bydd y llwybr cludo'n dilyn llwybr y trac presennol at lefel is at y goedlan aeddfed ar ochr orllewinol y safle.

5.61 Tra bo amcanion cynaliadwyedd Polisi Cynllunio Cymru yn hyrwyddo'r flaenoriaeth dros ddefnyddio tir gwag neu dir sy'n cael ei danddefnyddio, rhaid cydnabod gallu'r safle i'w adfer ei hun o safbwynt gwerth ecolegol. Mae Pennod 4, Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9 - Tachwedd 2016), yn rhoi diffiniad o dir sydd eisoes wedi'i ddatblygu ble nad yw darpariaeth ar gyfer adferiad wedi ei wneud trwy weithdrefnau rheoli datblygu. Mae rhannau o'r chwarel y gallant ddiwallu'r meini prawf gwaharddiad canlynol y'u nodir o dan ddiffiniad Ffigwr 4.4:

- Tir ble mae olion unrhyw strwythur neu weithgaredd wedi ymdoddi i'r dirwedd dros amser fel bod modd eu hystyried, yn rhesymol, fel rhan o'r amgylchedd naturiol.

5.62 Fel nodwyd yn flaenorol, yn aml 'gwneud dim byd' yw'r ffordd orau o adfer safleoedd mwynol i hyrwyddo bioamrywiaeth ac fe all rhannau o'r chwarel ble mae llystyfiant wedi tyfu o'r newydd fod yn fodel neu'n dempled cadwraeth i gyfuno elfennau o fioamrywiaeth i gynllun adfer. Er hynny, roedd y safle'n gwbl weithredol mor ddiweddar â 2008, ac er fod rhannau o'r safle wedi datblygu'n gynefin bywyd gwyllt ers hynny, dylid cadw mewn cof y gallai gweithgaredd sy'n ymwneud ag ennill a

gweithio mwynau ar y safle ail-gychwyn o dan amodau penderfyniad ROMP ar unrhyw adeg heb rybudd ymlaen llaw. O ystyried y bydd llwybr y ffordd osgoi yn sterileiddio rhan helaethaf y gronfa mwynau, efallai y bydd y llwybr cludo'n cael ei adfer yn unol â'r atodlen lawn o blannu coed i'w gyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol gydag amodau.

5.63 O ystyried popeth uchod, er bydd gweithgaredd yn cael effaith ar y cynefin newydd yn y safle, ni ystyrir y byddai gwerth cadwraeth natur yr ardal yn fwy gwerthfawr na'r cynigion i ail-ddefnyddio'r safle, o ystyried bod tystiolaeth glir bod gallu gan y safle i adfer ei hun mewn cyfnod byr.

5.64 I grynhoi, mae effaith y cynigion yn cynnwys; cael gwared â choed, llystyfiant daear a chynefin mosaig agored er budd gweithgareddau sy'n ymwneud ag ail-alinio llwybrau cludo. Ni ystyrir y bydd unrhyw bryderon bioamrywiaeth arwyddocaol gyda defnyddio'r iard goncrid fel compownd y safle am gyfnod dros dro, ar wahân i gael gwared â'r *buddleia* sy'n ei hadu ei hun. Er bod adfer y darn concrid ar laswelltir hawdd i'w gynnal wedi'i gynnwys yng nghynlluniau'r cais, mae dal dewis i'w gadw fel ag y mae gan ei bod yn bosib y bydd angen cynllun ymchwil tir pellach pe bai unrhyw halogiad yn cael ei ganfod. Mae dal yn ofynnol i'r llain galed o goncrid gael ei thrin a'i hadfer yn unol â thelerau'r hawliau mwynau sydd wedi ei ddilyn yn rhannol yn dilyn dymchwel a gwaredu'r gwaith cynhyrchu briciau. Fodd bynnag, os yw'r rhan helaethaf o'r safle am gael ei adfer i fod yn warchodfa natur yn unol ag amcanion cadwraeth, fe ellir parhau i ddefnyddio'r llain galed fel cyfleuster parcio ceir a byddai'r cynnig felly'n cydymffurfio â pholisïau B15, B16, B17, B19, B20, B21 a D13 y Cynllun Datblygu Unedol yn ogystal â pholisïau TWR 1 AMG 4 a MWYN 10 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gorwel.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau**

5.65 Dan Reoliadau Cynefinoedd 2010, dylid asesu cynlluniau a phrosiectau nad ydynt ar gyfer rheoli Safle Ewropeaidd am eu heffeithiau arwyddocaol i unrhyw Safle Ewropeaidd.
Mae sawl Safle Ewropeaidd a allai gael eu heffeithio o bosib gan y bwriad hwn yn y Gwaith Brics:

- ACA Afon Menai a Bae Conwy
- ACA Glynllifon
- ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn

5.66 <u>Ardal Gadwraeth Arbennig (ACA) Y Fenai ac Bae Conwy</u>

- Mae ACA Y Fenai 1.8km o'r Gwaith Brics.
- Mae ACA Y Fenai'n islanwol ar y cyfan ac mae wedi'i ddynodi am ei gynefinoedd morol.

Mae cynefinoedd ACA Y Fenai a Bae Conwy'n sensitif i lygriad gwenwynig o ollyngiadau/gollyngiadau damweiniol/trwytholchiadau halogedig o gyfleusterau gwastraff/gollyngiadau elifiant cartrefi.

5.67 Lleolir y compownd arfaethedig o fewn 20 metr o Afon Seiont ac mae y tu mewn i barth llifogydd C2. Dengys Asesiad Canlyniad Llifogydd (Ymgynghorwyr WaterCo Ebrill 2016) bod tebygolrwydd isel o lifogydd yn y compownd arfaethedig a'i fod yn annhebygol y bydd y deunydd a gaiff ei storio ar y safle'n cael ei olchi i Afon Seiont a'i gludo i'r môr.

5.68 Casgliad yn datgan bod y cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ACA Y Fenai

5.69 Ardal Cadwraeth Arbennig Glynllifon

- Mae ACA Glynllifon wedi'i ddynodi am ei boblogaeth o'r Ystlum Pedol Leiaf.
- Mae'r gwaith brics chwe cilomedr o ACA Glynllifon.

5.70 Mae ystlumod pedol leiaf yn medru hedfan dros 14 cilomedr mewn un noson ac mae'n debygol bod unrhyw ystlumod pedol leiaf sydd yn y gwaith brics yn rhan o fetaboblogaeth ACA Glynllifon. Gwyddys fod ystlumod pedol leiaf yn clwydo yn y gwaith brics, 130 metr o leoliad y compownd arfaethedig. Mae'r glwydfan hon yn safle gaeafgysgu (er bod ystlumod yn bresennol yn ystod misoedd yr haf) ac mae ganddi niferoedd isel o ystlumod (3-11). Mae Afon Seiont yn darparu porthfa hanfodol a llwybr cymudo i'r ystlumod pedol leiaf yn yr ardal.

5.71 Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith ar glwydfan yr ystlumod yn uniongyrchol, ond fe all goleuadau ar unrhyw safle a cholli cynefin ostwng gallu'r ystlumod i borthi neu fe all dorri eu llwybrau cymudo. Ni fyddai'r cynnig yn cael effaith hirdymor ar boblogaeth yr ystlum pedol leiaf; mae yn bwysig, fodd bynnag, fod y safle'n cael ei adfer i fod yn gynefin sy'n addas i ystlumod.

5.72 ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn

- Mae ACA Afon Gwyrfai wedi'i ddynodi am gynefinoedd a rhywogaethau:

5.73 Unig nodwedd ACA Gwyrfai a all gael ei effeithio gan y cynnig hwn yw'r dyfrgi. Caiff Afon Seiont ei defnyddio gan ddyfrgwn ac mae'n annhebygol bod y dyfrgwn ar hyd Afon Seiont yn rhan o'r boblogaeth sy'n gysylltiedig ag Afon Gwyrfai.

5.74 Mae'n annhebygol y byddai'r gwaith arfaethedig yn effeithio'r dyfrgwn ac mae'n annhebygol y byddai'r cynnig yn cael effaith arwyddocaol ar ACA Afon Gwyrfai. Mae'n bwysig, fodd bynnag, i symudiad y dyfrgwn drwy'r tirwedd bod y safle'n cael ei adfer gyda ffosydd/cyrsiau dŵr i greu cynefin gymudo i ddyfrgwn.

**Crynodeb**

5.75 Mae'r bwriad i ddefnyddio'r safle fel safle ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd gan gynnwys compownd, swyddfeydd, storfa danwydd, tanc storio carthion, peiriannau concrid symudol, peiriannau asffalt symudol, a darparu llwybr cludo yn hen Waith Brics Caernarfon, yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar unrhyw safleoedd sydd wedi'u dynodi dan Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae CNC yn cytuno â chasgliad asesiad yr ACLl dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 na fydd unrhyw risg arwyddocaol o effeithiau ar safleoedd wedi'u gwarchod (AGA/ACA/SoDdGA) yn sgil y cynigion datblygu.

**Materion cynaladwyedd**

5.76 Mae Ffigwr 4.2 Polisi Cynllunio Cymru'n rhoi diffiniad o ddatblygiad cynaliadwy yng Nghymru ble mai; ystyr “datblygu cynaliadwy” yw’r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adran 5), gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant. Ymhellach, mae'r adroddiad hwn wedi asesu materion cynaliadwy'r cais hwn yn unol â'r nod datblygu cynaliadwy ym mharagraff 4.1.1. PCC i: “galluogi pawb ym mhob cwr o’r byd i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a mwynhau gwell

ansawdd bywyd heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol." Ac yn unol â saith nod lles 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' i helpu sicrhau pob corff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru Gynaliadwy.

5.77 Gellir ystyried mai datblygiad sy'n gysylltiedig ag anghenion y prosiect isadeiledd ffordd a ariennir gan Lywodraeth yw'r datblygiad ger Afon Seiont ac y bydd dan gyfyngiad amser yn unol â hynny, ac fe ystyrir bod Polisi C3 o'r CDU a Pholisi CYF 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol Allddyfodol yn berthnasol, (*cynigion sy'n rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio tir neu adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen a leolir o fewn neu o gwmpas ffiniau datblygu cyn belled â bod y safle neu'r adeilad a'r defnydd yn addas*) o ystyried bod hwn yn gynnig i ailddefnyddio safle gyda chaniatâd cynllunio dilys a roddodd y gorau i weithredu yn 2008. Hefyd, datgan paragraff 4.9 Polisi Cynllunio Cymru, '*ffafriaeth i ailddefnyddio tir*' fel a ganlyn; 'Mae'n bosibl y gallai llawer o safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen mewn ardaloedd adeiledig fod yn rhai addas i'w datblygu gan y bydd eu hailddefnyddio'n hyrwyddo amcanion cynaliadwyedd'

**Yr Economi**

5.78 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1 – B8 ond yn cyfrif am ran o'r gweithgaredd yn yr economi. Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn cydnabod yr agwedd economaidd o bob datblygiad ac y gwneir penderfyniadau cynllunio mewn modd cynaliadwy sy'n cadw cydbwysedd rhwng ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n datgan ymhellach; Y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod arwyddion y farchnad a rhoi sylw i'r angen i arwain datblygiad economaidd i'r lleoliadau mwyaf addas yn hytrach na rhwystro neu atal y fath ddatblygiad.

5.79 Fel nodwyd eisoes, mae Cefnffordd yr A487 yn ffurfio rhan o'r prif rwydwaith ffyrdd strategol yng Ngogledd Cymru sy'n cysylltu â choridor yr A55 ymhellach draw ar hyd yr arfordir. Bydd cynllun y ffordd osgoi yn gwella problemau tagfeydd traffig yn ardal Caernarfon a Bontnewydd gan ddarparu cyswllt rhwng rhannau wedi'u gwella o'r Gefnffordd a mynd i'r afael â'r angen am seilwaith ffyrdd o ansawdd cyson.

5.80 Ceir manteision economaidd, logistaidd ac amgylcheddol o ddefnyddio'r chwarel mewn cysylltiad ag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 o Gaernarfon i Bontnewydd. Mae hefyd yn debygol y bydd y cynnig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi'r ardal yn unol a Pholisi Strategol 16 y Cynllun Datblygu Unedig.

**Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

5.81 Nid oes unrhyw lwybrau cyhoeddus na hawliau tramwy wedi'u lleoli o fewn ffin safle'r cais ac felly, nid oes gofyn i wneud unrhyw ddarpariaeth am warchodaeth benodol.

6. **Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

6.1 Mae'r prif bryderon a godwyd gan drydydd partïon mewn ymateb i ymgynghoriad ar y cais yn cynnwys, yn bennaf, effaith bosib ar amwynder preswyl, cludiant, sŵn, llwch, dirgryniad ac oriau gwaith, bioamrywiaeth, tirwedd, treftadaeth ddiwylliannol,

llifogydd, sefydlogrwydd tir, hirhoedledd gweithgaredd ac effeithiau cronnus gyda chynigion y ffordd osgoi.

6.2 Mae’r Awdurdod Cynllunio Mwynau wedi ystyried y gwrthwynebiadau hyn fel ystyriaethau perthnasol wrth baratoi argymhelliad ar gyfer y cais hwn. Yn fwy na hyn, mae’r ystyriaethau perthnasol sy’n gysylltiedig â’r bwriad hwn wedi cael eu hasesu yng nghyd-destun polisïau a chanllawiau cynllunio perthnasol, ac ni ystyrir bod cyfiawnhad i wrthod y cais.

7. **Casgliadau**

7.1 Mae hwn yn un o ddau gais cynllunio cyfredol sydd wedi'u cyflwyno dros gynigion i ddefnyddio'r safle ar y cyd â chynllun ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd. Mae'r holl elfennau sy'n llunio rhan o'r cais hwn wedi'u cynnwys yn y cynigion datblygu sydd wedi'u cyflwyno â'r chwaer-gais mwy, sef C17/0011/19/MW. Er na fyddai'r cais hwn ar ei ben ei hun yn sbarduno'r meini prawf datblygu ar gyfer Asesiad Effaith Amgylcheddol, mae'r dogfennau cefnogi perthnasol a'r wybodaeth amgylcheddol sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol wedi'i hystyried yng nghyd-destun y cynigion datblygu sydd wedi'u cynnwys yn y cais cynllunio hwn.

7.2 Gellir ystyried mai datblygiad sy'n gysylltiedig ag anghenion y prosiect seilwaith ffordd a ariennir gan Lywodraeth yw'r datblygiad ger Afon Seiont ac y bydd dan gyfyngiad amser yn unol â hynny, ac fe ystyrir bod Polisi C3 o'r CDU a Pholisi CYF 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gorwel yn berthnasol (*cynigion sy'n rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio tir neu adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen a leolir o fewn neu o gwmpas ffiniau datblygu cyn belled â bod y safle neu'r adeilad a'r defnydd yn addas*) o ystyried bod hwn yn gynnig i ailddefnyddio safle gyda chaniatâd cynllunio dilys a roddodd y gorau i weithredu yn 2008. Hefyd, datgan paragraff 4.9 Polisi Cynllunio Cymru, '*ffafriaeth i ailddefnyddio tir'* fel a ganlyn; 'Mae'n bosibl y gallai llawer o safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen mewn ardaloedd adeiledig fod yn rhai addas i'w datblygu gan y bydd eu hailddefnyddio'n hyrwyddo amcanion cynaliadwyedd' Felly, ystyrir fod y datblygiad mewn egwyddor yn cydymffurfio â Pholisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol a Rhanbarthol ynghyd â gofynion Polisïau A1, A3 a C3 y Cynllun Datblygu Unedol a Pholisïau CYF 1, PCYFF 1 a TRA 1 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gorwel.

7.3 Er bod graddfa'r gweithfeydd a safle'r cyn waith brics yn sylweddol, yn gyffredinol, mae'r safle yn cael ei sgrinio'n dda gan lystyfiant aeddfed, topograffi o'i amgylch ac amgylchedd maestrefol Caernarfon. Ni ystyrir y bydd y cynnig, yn ei grynswth neu fel prosiect ar ei ben ei hun, yn cael effeithiau arwyddocaol ar ddynodiadau tirwedd statudol neu anstatudol. Byddai'r newid gweledol mwyaf yn digwydd ar ogledd-orllewin y pwll clai ble cynigir ffordd gludo newydd yn cysylltu gyda'r ffordd osgoi mewn ardal o dir pori amaethyddol. Byddai Ysbyty Eryri a'r llwybr troed sy'n rhedeg ar hyd Afon Seiont o'r A4085 i Ffordd Melin Seiont yn cael eu heffeithio gan sefydlu a gweithredu compownd y safle a'r gwaith o adeiladu ffordd gludo newydd.

7.4 Ni ystyrir y bydd y cynnig, yn ei grynswth neu fel prosiect ar ei ben ei hun, yn cael effaith arwyddocaol tymor hir ar asedau treftadaeth ddiwylliannol nac ar fuddion geomorffoleg y safle ac mae'r cynnig yn cydymffurfio â Pholisi B3, B6, B7, B12 a B18 CDU Gwynedd ac hefyd gyda Pholisi PCYFF 1, AMG 2, AT 1, AT 4 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gorwel.

7.5 Bydd dechrau a gorffen gweithgareddau yn destun rhybudd ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael eu cwblhau mewn cyn lleied o amser â phosib er mwyn amharu cyn lleied â phosib ar amwynder lleol. Yn sgil gosod amodau cynllunio i gyfyngu ar effeithiau sŵn, llwch, cludo, oriau gweithio a hyd y prosiect, cyfanswm o bedair blynedd i gyd, ystyrir bod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisi B23, B30, B33 CDU Gwynedd ynghyd â Pholisi CYFF 1 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gorwel. Rhestrir materion a fyddai fel arall yng nghylch gorchwyl Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr adroddiad hwn, e.e. 'bydd gofynion am drwydded gwastraff o dan Reoliadau Hawliau Amgylcheddol 2010 yn cael eu cyflwyno at sylw'r datblygwr trwy 'rybudd i ymgeisydd' a gaiff ei gyflwyno

gyda'r caniatâd cynllunio, ond ni fydd yn ymddangos yn y rhestr o amodau cynllunio ar y rhybudd penderfyniad.

7.6 Mae buddion economaidd, logistaidd ac amgylcheddol i'w cael o ddefnyddio'r chwarel o ran yr effeithiau ar y briffordd, o ystyried ei fod wedi'i leoli yn uniongyrchol gerllaw llwybr y ffordd osgoi arfaethedig. O ddewis defnyddio chwarel gyda chyswllt uniongyrchol â'r ffordd osgoi trwy ffyrdd cludo mewnol, ni fydd rhaid i unrhyw gludiant yn ôl a blaen o'r chwarel ddefnyddio cerbydau HGV ar ffyrdd cyhoeddus a bydd y cynnig felly'n cydymffurfio â Pholisïau CH33 a CH36 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, yn ogystal â Pholisi PS5 a TRA 1 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gorwel.

7.7 O safbwynt asesu materion cynllunio, ystyrir bod y cais a'r Datganiad Amgylcheddol yn rhoi asesiad cynhwysfawr a lliniaru addas i faterion sy'n ymwneud â rheoli llif dŵr wyneb, perygl o lifogydd, gwarchod yr amgylchedd, ac atal llygru, ac mae'r cynnig yn cydymffurfio â gofynion A1, A3, B28, B30, B32, B33 ac C3, Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn ogystal â Pholisïau PS6, PS18, PS19, CYFF 1 a CYFF5 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gorwel.

7.8 Mae'r bwriad i ddefnyddio'r safle fel safle ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd gan gynnwys compownd safle, swyddfeydd, storfa danwydd, tanc storio carthion, peiriannau swp-brosesu concrid symudol, peiriannau swp-brosesu asffalt symudol, a darparu llwybr cludo yn hen Waith Brics Caernarfon, yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar unrhyw safleoedd sydd wedi'u dynodi dan Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae CNC yn cytuno â chasgliad asesiad yr ACLl dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 na fydd unrhyw risg arwyddocaol o effeithiau ar safleoedd wedi'u gwarchod (AGA/ACA/SoDdGA) yn sgil y cynigion datblygu.

7.9 Nid yw'r safle ei hun yn destun unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol megis ACA Ewropeaidd neu ddynodiad SoDdGA ac, ar y cyfan, nid yw'n cynnwys unrhyw gyfyngiadau bioamrywiaeth lleol. Er y gall gweithgareddau effeithio ar y cynefin newydd yn y safle, ni ystyrir y byddai gwerth cadwraeth natur yr ardal yn fwy gwerthfawr na'r cynigion i ail-ddefnyddio'r safle, o ystyried bod tystiolaeth glir bod gallu gan y safle i'w adfer ei hun mewn byr amser. Pe bai lliniaru priodol yn digwydd yn unol ag amodau cynllunio parthed rhywogaethau gwarchodedig, a darpariaeth i adfer y ffordd gludo, byddai'r cynnig felly'n cydymffurfio â pholisïau B15, B16, B17, B19, B20, B21, C9, C14 & D13 y Cynllun Datblygu Unedol yn ogystal â pholisïau TWR 1 AMG 4 & MWYN 4, MWYN 9 & MWYN 10 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar y gorwel.

7.10 Mae Cefnffordd yr A487 yn ffurfio rhan o'r prif rwydwaith ffyrdd strategol yng Ngogledd Cymru sy'n cysylltu â choridor yr A55 ymhellach draw ar hyd yr arfordir. Bydd cynllun y ffordd osgoi yn gwella problemau tagfeydd traffig yn ardal Caernarfon a Bontnewydd gan ddarparu cyswllt rhwng rhannau wedi'u gwella o'r Gefnffordd a mynd i'r afael â'r angen am seilwaith ffyrdd o ansawdd cyson.

7.11 Ceir manteision economaidd, logistaidd ac amgylcheddol o ddefnyddio'r chwarel mewn cysylltiad ag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 o Gaernarfon i Bontnewydd. Mae hefyd yn debygol y bydd y cynnig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi'r ardal yn unol a Pholisi Strategol 16 y Cynllun Datblygu Unedol.

7.12 Mae'r cynnig yn cwrdd ag anghenion cynaliadwyedd Polisi Datblygu Lleol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7.13 O ystyried yr uchod ac o ystyried yr holl faterion perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, a'r sylwadau a dderbyniwyd gan gynnwys llythyrau gwrthwynebu, ni chredir fod y cynnig yn annerbyniol nac yn mynd yn groes i ofynion y polisïau a restrir uchod. Yn seiliedig ar yr uchod, felly, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol.

8. **Argymhelliad**

**8.1 Awdurdodi Uwch Reolwr y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i benderfynu'r cais yn ddarostyngedig i'r ystod o amodau a ganlyn a, ble noder, cyflwyno gwybodaeth benodol yn unol â gofynion amodau cyn dechrau'r datblygiad:**

- Dechrau ymhen tair blynedd
- Hyd y cyfnod gweithio 5 mlynedd
- Gweithgareddau a ganiateir a Chydymffurfiaeth â’r Manylion/Cynlluniau a Gyflwynwyd
- Amseroedd gwaith fel ag y maent: 07:00 - 19:00 ddydd Llun i ddydd Gwener; 07:00 - 13:00 ddydd Sadwrn a dim gweithio mwynau i'w wneud ar ddydd Sul, Gwyliau Banc a Gwyliau Cyhoeddus.
- Danfoniadau deunyddiau ar gyfer swp-brosesu concrid ac asffalt wedi'i gyfyngu i'r llwybr cludo oddi ar y ffordd sydd wedi'i dangos ar gynlluniau'r cais.
- Cynllun plannu coed a llwyni cyflawn yn gynwysedig mewn gwaith adfer,
    - Sŵn yn ystod oriau gwaith arferol (0700-1900), ni ddylai'r lefel graddfa sŵn fod yn fwy na 55dB(A) LAeq, 1 awr (*free field*). Gyda'r nos (1900-2200), ni ddylai'r cyfyngiadau fod fwy na 10dB(A) uwchlaw'r lefel cefndirol
    - Ni ddylai cyfyngiadau yn ystod y nos fod yn uwch na 42 dB (A) LAe1, 1 awr *free field* ger anheddau sensitif. (MTAN1).
    - Gweithrediadau dros dro i fod ddim mwy na 70 dB LAeq, 1 awr (*free field)* am hyd at 8 wythnos y flwyddyn.
    - Arolwg monitro sŵn yn unol â chais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, i'w gynnal yn unol â Safon Brydeinig BS.4142:2014 *'Methods for rating and assessing industrial and commercial sound'*, i asesu ac arddangos cydymffurfiaeth â'r cyfyngiad sŵn ffiniol.
    - Defnyddio larymau sŵn gwyn ar gyfer bagio cerbydau.
- Strategaeth adferiad os canfyddir, yn ystod y datblygiad, halogiad nad oedd wedi'i ganfod yn flaenorol.
- Storio tanwydd.
- Gofyniad i nodi manylion cyflawn y tanc storio dŵr budr i gael ei gyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol cyn cychwyn gwaith gydag amod pellach yn gofyn bod unrhyw seilwaith dros dro sy'n ymwneud â draeniad budr/carthffosiaeth ar y safle wedi'i ddigomisiynu'n llwyr ac wedi'i symud o'r safle pan ddaw'r caniatâd i ben.
- Defnyddio *bowser* dŵr ar lwybrau cludo, gwlychu ardaloedd prosesu a deunyddiau wedi'u prosesu, a chadw log o gwynion yn ymwneud â llwch.
- arolwg llwch yn cael ei gynnal am o leiaf chwe mis mewn lleoliadau wedi'u cytuno a bod gwaith mathru, sgrinio, trosglwyddo a gweithrediadau eraill sy'n debygol o arwain at lwch a gludir yn yr aer yn cael ei wneud mewn adeilad priodol.
- Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu i sicrhau fod arfer da a lliniaru da wedi'u sefydlu i amddiffyn yr amgylchedd ddyfrol, gan gynnwys: amodau gwaith ar y safle a mesurau i reoli effeithiau amgylcheddol megis symudiadau cerbydau HGV,

cyfleusterau golchi olwynion, gorchuddio cerbydau, ardaloedd storio diogel, ansawdd aer, oriau gwaith, sŵn/dirgryniant, rheoli gwastraff a llygredd. Hefyd, monitro'r dŵr ffo posib o ddeunyddiau llaid a gwastraff i liniaru ardrawiad posib y datblygiad a gweithdrefnau arllwyso ar yr amgylchedd.

- Darpariaeth ar gyfer cofnodi cloddiadau y tu mewn i Safle Geomorffoleg Daearegol o Bwys Rhanbarthol (RIGS).
- Gall manylion unrhyw oleuo allanol fod yn destun amod cynllunio, felly hefyd gall cael gwared â llystyfiant.
- Nodyn i'r ymgeisydd yn cyfeirio at adwaith Cyfoeth Naturiol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Gwynedd, y Gwasanaeth Erydu Arfordirol, Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd, a Dŵr Cymru i'r ymgynghoriad, gan gyfeirio'n benodol at reolaeth benodol yn eu cylchoedd gorchwyl.
- Nodyn i'r ymgeisydd mai cyfrifoldeb ac atebolrwydd canlynol y datblygwr ac/neu'r tirfeddiannwr yw datblygu a meddiannu'r safle'n ddiogel.
- Nodyn i'r ymgeisydd bod y cais wedi ei asesu'n unol â saith amcan cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.